# Llwybr Beicio Parc y Rhath

# Cae Rec y Rhath

## Adroddiad ar yr Ymgynghoriad (ail)

**Gorffennaf 2023**

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd ail ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y Cyngor ar gyfer gwella Cae Rec y Rhath. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus, o'r enw 'Canlyniad yr Ymgynghoriad a Diweddariad', rhwng 16 Rhagfyr 2022 a 15 Ionawr 2023.

Cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad hwn i geisio barn ar ddiweddariadau i'r cynigion, ynghyd â chyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad. Rhyddhawyd yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar yr un pryd â'r ail ymgynghoriad.  Prif amcan yr ail ymgynghoriad oedd rhoi diweddariad ar ddatblygiad y cynllun, darparu gwybodaeth a cheisio barn ar:

- Y newidiadau i gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Ninian yn dilyn asesiad parhaus;
- Newidiadau i faes parcio'r Ganolfan Gymunedol;
- Cynigion ar Pen-y-Wain Place ar gyfer arwyneb a rennir a fydd yn cysylltu'r llwybr beicio arfaethedig yng Nghae Rec y Rhath ag Ysgol Gynradd y Rhath;
- Cynigion i newid y mannau culach â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw

Gwahoddwyd adborth cyffredinol hefyd.

Roedd y gweithgareddau canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad i'w hyrwyddo ac i gael adborth gan y cyhoedd i lywio'r cynllun:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun;
- Hysbysiadau safle yn cael eu harddangos yng nghyffiniau'r cynllun;
- Gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn cael ei harddangos yn y Ganolfan Gymunedol (yn drwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad);
- E-bost at ymgyngoreion sy'n rhanddeiliaid;
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor; ac
- Arolwg ar-lein (drwy wefan y Cyngor / dosbarthu llythyrau)

Cafodd y Cyngor wybod y bu oedi cyn i rai trigolion gael eu llythyrau ar gyfer yr ail ymgynghoriad.

Ynôl ein cofnodion, anfonwyd y llythyrau ymgynghori i argraffwyr y Cyngor ar 13 Rhagfyr 2022 i'w hargraffu a'u postio. Daeth llythyr prawf i law swyddog a oedd yn byw yng Nghaerdydd, cyn cyfnod y Nadolig (tua phythefnos cyn y dyddiad cau), a ddangosodd y bu rhywfaint o oedi. Ar yr adeg honno, pan gafodd y Cyngor wybod am y mater hwn am y tro cyntaf, roedd tua

209 o ymatebion i'r arolwg ar-lein wedi cael eu cyflwyno, sy'n awgrymu bod nifer o drigolion wedi cael llythyrau neu wedi edrych ar hysbysiadau safle ac ymateb iddynt.

Er mwyn caniatáu amser ychwanegol i drigolion a oedd efallai wedi profi oedi cyn cael eu llythyrau, cytunwyd y byddai dyddiad cau'r ymgynghoriad yn cael ei estyn o 6 Ionawr 2023 i ddydd Sul 15 Ionawr 2023. Ychwanegwyd nodyn at y ddolen i'r ymgynghoriad ar y wefan ac at yr arolwg ar-lein i adlewyrchu hyn.

Anfonwyd tua 1,060 o lythyrau at drigolion a busnesau yng nghyffiniau ardal y prosiect. Daeth cyfanswm o 259 o ymatebion i law drwy'r ddolen i arolwg yr ymgynghoriad. Byddai hyn yn awgrymu cyfradd ymateb o tua 24% gan dybio bod y bobl a gafodd lythyrau wedi cwblhau'r arolwg.

Cafwyd tua 48 o ymholiadau e-bost hefyd (heb gynnwys ymholiadau lluosog gan yr un unigolion), sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 5%. Mae'n bosibl bod rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd wedi cwblhau'r arolwg ar-lein neu wedi gweld yr hysbysiad safle yn unig. Daeth y mwyafrif o'r rhain i law ar ôl y dyddiad cau gwreiddiol neu ar ôl y dyddiad estynedig.

Cyflwynwyd deiseb ar-lein ar 4 Ionawr 2023 gan breswylydd lleol a oedd yn cynnwys dros 200 o lofnodion ar adeg y cyflwyniad cychwynnol. Cafodd hon ei hailgyflwyno ym mis Mawrth 2023. Daeth deiseb ychwanegol i law ddiwedd mis Mawrth 2023 ar fater ar wahân.

Yn yr adroddiad hwn darperir adolygiad o'r adborth ar yr arolwg ar-lein, y deisebau a gohebiaeth uniongyrchol, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun parhaus sy'n cael ei ddatblygu.

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno fel a ganlyn:


- **Adran 2 – Crynodeb o'r arolwg ar-lein a'r sylwadau a gafwyd** Tudalen 3
  - 2.1 Crynodeb o'r arolwg amlddewis Tudalen 3
  - 2.2 Trosolwg o'r sylwadau a gafwyd Tudalen 5
  - 2.3 Crynodeb o ddatganiadau'r deisebau a gafwyd Tudalen 6
- **Adran 3 – Ymateb y Cyngor i'r adborth a gafwyd** Tudalen 8
  - 3.1 Ymateb y Cyngor i'r sylwadau cyffredinol a gafwyd Tudalen 8
  - 3.2 Ymateb y Cyngor i sylwadau a gafwyd mewn perthynas â gwahardd symudiadau troi ar y gyffordd Tudalen 15
  - 3.3 Ymateb y Cyngor i sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig i gau Heol y Gwernydd Tudalen 18
  - 3.4 Ymateb y Cyngor i'r ddwy ddeiseb a gafwyd Tudalen 27
- **Adran 4 – Diweddariadau i'r cynlluniau** Tudalen 31
- **Adran 5 – Crynodeb o'r ymgynghoriad ac argymhelliad** Tudalen 32
- **Adran 6 – Y camau nesaf** Tudalen 37
- **Adran 7 – Atodiadau**
  - **Atodiad A** – Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd wedi'u coladu
  - **Atodiad B** – Crynodeb o waith modelu Heol Ninian / Heol Wellfield
  - **Atodiad C** – Y lluniadau dylunio diweddaraf

## 2. Crynodeb o'r arolwg ar-lein a'r sylwadau a gafwyd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r adborth a ddarparwyd gan ymatebwyr i gwestiynau amlddewis yr arolwg ar-lein a thrwy fathau eraill o gyfathrebu.

Dylid nodi nad yw'r arolwg na'r ymgynghoriad ar-lein yn fath o refferendwm. Ar y sail hon, defnyddir y data i fesur barn ac fe'u defnyddir i helpu i lywio gwaith cynllunio'r prosiect. Hefyd, nid yw bob amser yn bosibl rhagweld adborth y cyhoedd ar nodweddion penodol cynnig. Am y rheswm hwn, darperir meysydd testun agored o fewn yr arolygon ar-lein er mwyn gwahodd adborth.

### 2.1. Crynodeb o'r arolwg amlddewis (arolwg ar-lein)

***Tabl 1 – Pa lefel o gefnogaeth sydd gennych ynghylch y mesurau canlynol yn yr ardal hon ?***


Mae **Tabl 1** yn dangos pa mor gefnogol yw'r 259 o ymatebwyr i'r mesurau arfaethedig. Ar y cyfan, mae'r ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r mesurau arfaethedig a restrir isod.

| | Cefnogol iawn | Eithaf cefnogol | Y naill na'r llall | Eithaf anghefnogol | Dim cefnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lledu'r droedffordd ar Pen-y-Wain Place i greu arwyneb a rennir ar gyfer mynediad gwell i feiciau i Ysgol Gynradd Parc y Rhath** | 57 (24%) | 69 (29%) | 33 (14%) | 19 (8%) | 57 (24%) |
| **Y gwelliannau yn y gyffordd signalau** | 50 (22%) | 64 (28%) | 32 (14%) | 16 (7%) | 70 (30%) |
| **Gwaredu a disodli'r mannau culach â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw.** | 81 (34%) | 57 (24%) | 30 (13%) | 17 (7%) | 50 (21%) |

Mae'r siartiau canlynol yn rhoi crynodeb gweledol o rai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg ar-lein.


***Siart 1 –Ydych chi'n meddwl bod cael gwared ar y mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw yn syniad da?***

Mae **Siart 1** yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn meddwl ei bod yn syniad da cael gwared ar y mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw.





***Siart 2 – Ydych chi'n meddwl bod pedair croesfan ddyrchafedig nas rheolir yn syniad da i gymryd lle'r mannau cul â blaenoriaeth presennol?***

Mae **Siart 2** yn awgrymu bod mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y byddai cael pedair croesfan ddyrchafedig nas rheolir – yn lle'r mannau cul â blaenoriaeth – yn syniad da.





***Siart 3 – Ydych chi'n teimlo y bydd y newidiadau i'r gyffordd signalau yn eich annog i fynd i ddefnyddio'r ardal yn fwy ar droed neu ar feic?***

Mae **Siart 3** yn awgrymu na fyddai'r newidiadau i'r gyffordd â signalau o reidrwydd yn gwneud i fwyafrif yr ymatebwyr feicio neu gerdded mwy. Sylwch ei bod yn bosibl bod rhai o'r ymatebwyr eisoes yn mynd i'r ardal ar droed neu ar feic.




***Siart 4 – Ydych chi'n meddwl bod y gwaharddiad awgrymedig ar symudiadau troi, er mwyn helpu'r gyffordd i weithredu'n fwy effeithlon, yn syniad da ar y gyffordd signalau?***

Mae **Siart 4** yn awgrymu nad yw mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod gwahardd symudiadau troi ar y gyffordd i wneud y gyffordd yn fwy effeithlon yn syniad da.




***Tabl 2 – Ydych chi'n teimlo bod y system ddwy ffordd yn y maes parcio, a gwell mynediad i'r maes chwarae a'r parc yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddio'r maes parcio?***

| | |
|---|---|
| Ydw, yn enwedig i ddefnyddwyr anabl | 32 (13%) |
| Ydw, yn enwedig i rieni â phlant | 26 (11%) |
| Ydw, i ddefnyddio'r cyfleusterau yn adeilad y Ganolfan Gymunedol | 37 (15%) |
| Nac ydw | 95 (39%) |
| Ddim yn siŵr | 97 (39%) |

***Siart 5 – Er mwyn darparu ar gyfer y trac beicio drwy'r maes parcio, ydych chi'n teimlo bod cynllun y maes parcio bellach yn well i'r holl defnyddwyr?***

Mae **Siart 5** yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n teimlo y bydd y cynllun yn well i'r holl ddefnyddwyr neu nad oes ots ganddyn nhw am y newidiadau.




## 2.2. Trosolwg o'r sylwadau a gafwyd

Mae'r sylwadau a gafwyd fel rhan o'r arolwg ar-lein ac o ohebiaeth ysgrifenedig wedi cael eu coladu a'u crynhoi. Darperir copi o'r adborth wedi'i grynhoi hwn yn **Atodiad A.** Ni chafodd adborth ailadroddus ar yr un pwnc neu bryder ei gynnwys. Mae ymateb wedi cael ei baratoi gan y Cyngor yn **adran 3.1** i **adran 3.3** yr adroddiad hwn.

Gellir crynhoi'r adborth fel a ganlyn:

- *Sylwadau am y broses ymgysylltu / ymgynghori a'r amseriad;*
- *Sylwadau am deithio llesol ac aer glân;*
- *Sylwadau ac arsylwadau ar ymddygiad beicwyr;*
- *Pryderon am y llwybr beicio trwy'r cae chwarae a'r maes parcio;*
- *Pryderon ynghylch coed, y llwybr beicio dewisol a defnyddwyr eraill y parc;*
- *Pryderon ynghylch cynllun maes parcio'r Ganolfan Gymunedol;*
- *Sylwadau ynghylch parcio yn gyffredinol o fewn yr ardal;*
- *Sylwadau am Pen-y-Wain Place a Heol Ninian;*
- *Sylwadau am gael gwared â'r mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw ;*
- *Sylwadau ac awgrymiadau ynghylch Heol Tŷ Draw fel llwybr beicio;*
- *Sylwadau am y gwelliannau i'r gyffordd â signalau;*
- *Sylwadau ynghylch y gwaharddiad ar symudiadau troi ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan, a'r effaith ehangach;*
- *Pryderon ac awgrymiadau ynghylch cau Heol y Gwernydd, a'r wybodaeth am y cau yn y pecyn ymgynghori.*

## 2.3. Crynodeb o ddatganiadau'r deisebau a gafwyd

Daeth dwy ddeiseb i law. Roedd un yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer Heol y Gwernydd ac ail ddeiseb ar gyfer y gwaharddiad arfaethedig ar symudiadau troi ar y gyffordd â signalau rhwng Heol Wellfield a Heol Ninian. Mae ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y datganiadau deiseb wedi'i gynnwys yn **adran 3.4** yr adroddiad hwn. Mae'r datganiadau a wnaed fel rhan o'r deisebau hyn fel a ganlyn:

**Datganiad deiseb (1):** *"Mae'r ddeiseb hon yn cael ei chyflwyno fel cwyn ynghylch y ffordd y mae'r ymgynghoriad ar y gwelliannau i Gae Rec y Rhath wedi cael ei gynnal. Nid oedd dogfen yr ymgynghoriad cychwynnol yn sôn yn benodol am gau Heol y Gwernydd ar y gyffordd â Heol Ninian – roedd y cynllun yn fach ac yn brin o fanylion.*

*Yn llythyr yr ail ymgynghoriad a ddaeth i law ddiwedd mis Rhagfyr, dim ond y pwyntiau isod a restrwyd gan y cynllun:*

- *Lledu'r droedffordd o fewn cae chwarae Cae Rec y Rhath*
- *Llwybr beicio trwy gae chwarae Cae Rec y Rhath*
- *Arwyneb a rennir ar Pen-y-Wain Place*
- *Gwella'r mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw*
- *Newidiadau i fynediad maes parcio'r Ganolfan Gymunedol.*

*Er y bydd llawer o bobl yn ystyried bod y cynigion uchod yn bethau cadarnhaol, nid oes unrhyw sôn am gau Heol y Gwernydd i draffig trwodd. Teimlwn fod ymgynghoriad y cyngor wedi bod yn un dichellgar ac ofer, gan lywio'r ffocws yn fwriadol oddi wrth y bwriad i gau'r ffordd.*

*Fel trigolion lleol credwn y bydd cau Heol y Gwernydd yn cael effaith negyddol iawn ar y gymuned leol. Rydym yn gwrthwynebu cau Heol y Gwernydd yn bennaf oherwydd y bydd yn arwain at fwy o dagfeydd traffig ar y cyffyrdd cyfagos ar bob pen i Heol Tŷ Draw a Heol Ninian.*

*Bydd trigolion Heol Tŷ Draw a'r holl strydoedd ochr gerllaw, y mae llawer ohonynt yn defnyddio Heol y Gwernydd sawl gwaith y dydd yn profi anghyfleustra ac yn creu mwy o dagfeydd a thraffig a fydd yn aros yn ei unfan ar y naill ben a'r llall i Heol Tŷ Draw, gan gynyddu llygredd y tu allan i gartrefi pobl.*

*Bydd traffig a fyddai wedi torri drwy Heol y Gwernydd yn flaenorol yn cael ei orfodi i gymryd llwybr hirach gan ychwanegu i'w ôl troed carbon ac yn sicr ni fydd yn lleihau llygredd.*

*Er y bu rhywfaint o waith monitro ar symudiadau cerbydau yn ystod yr wythnosau diwethaf, gall traffig gynyddu'n sylweddol yn ystod misoedd yr haf wrth i bobl ymweld â'r parciau a'r mannau gwyrdd.*

*Nid ydym wedi gweld cwestiwn penodol ynglŷn â chau Heol y Gwernydd yn y naill ymgynghoriad na'r llall a chredwn fod geiriad yr ohebiaeth wedi ceisio dibrisio elfen cau ffordd y cynllun, a hynny'n fwriadol.*

*Rydym o'r farn bod opsiynau eraill heblaw cau'r ffordd. Mae yna eisoes lawer o ffyrdd lle mae traffig yn aros yn ei unfan ger lonydd beicio gwag ac rydym yn annog y Cyngor i feddwl eto a chymryd sylw o'r rhai fydd yn wynebu effaith y cynnig hwn i gau ffordd."*

**Datganiad deiseb (2):** "*Newidiadau arfaethedig ar gyffordd Heol Ninian, Heol Pen-y-lan, Heol Marlborough a Heol Wellfield (Rhan o welliannau Llwybr Beicio Cae Rec y Rhath).*"

*Rydym yn galw ar Gyngor Caerdydd i ailystyried yr angen i wahardd troi i'r dde a newidiadau dilynol i gyfnodau'r signalau ar gyffordd Heol Ninian, Heol Pen-y-lan, Heol Marlborough a Heol Wellfield, a fydd yn peri i fwy o draffig ddefnyddio Heol Kimberley, Heol Westville, Heol Sandringham a ffyrdd cyfagos. Nid ydym yn erbyn llwybrau beicio, rydym yn erbyn mwy o draffig.*"

# 3. Ymateb y Cyngor i'r adborth a gafwyd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi ymateb y Cyngor i'r adborth ysgrifenedig a ddaeth i law fel rhan o'r ail ymgynghoriad ac mae wedi'i nodi fel a ganlyn:

- Adran 3.1 – ymateb y Cyngor i'r sylwadau cyffredinol a gafwyd;
- Adran 3.2 – ymateb y Cyngor i sylwadau a gafwyd mewn perthynas â gwahardd symudiadau troi ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Ninian;
- Adran 3.3 – ymateb y Cyngor i sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig i gau Heol y Gwernydd; ac
- Adran 3.4 – ymateb y Cyngor i'r ddwy ddeiseb a gafwyd.

## 3.1. Ymateb y Cyngor i'r sylwadau cyffredinol a gafwyd

### Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

***Y broses ymgynghori:*** Fel yr amlygwyd yn adran 1 yr adroddiad hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ym mis Mawrth 2023 ac ail ymgynghoriad, o'r enw 'Canlyniad yr Ymgynghoriad a Diweddariad', rhwng 16 Rhagfyr 2022 a 15 Ionawr 2023.

Cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad i geisio barn ar ddiweddariadau i'r cynigion, ynghyd â chyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, a ryddhawyd yr un pryd â'r ail ymgynghoriad.

Mae'r ddau ymgynghoriad yn dilyn y broses ymgynghori safonol ar gyfer cynlluniau prosiectau trafnidiaeth, sy'n broses tri cham, fel a ganlyn:

- ***Cam 1:*** *Anfonir copi o gynigion y cynllun at Gynghorwyr Ward i'w cymeradwyo cyn symud ymlaen i'r cam ymgynghori cyhoeddus. Os na cheir ymateb, gallwn symud ymlaen i Gam 2 (gweler isod) i geisio barn y cyhoedd. Rhoddir gwybod i Gynghorwyr Ward pan fydd y prosiect yn symud ymlaen i Gam 2. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau mwyafrifol i symud ymlaen i Gam 2 ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol na'r ail ymgynghoriad.*
- ***Cam 2:*** *Anfonir llythyrau a chynlluniau i drigolion lleol a rhanddeiliaid, arddangosir hysbysiadau safle, a sicrheir bod gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn ystod y cam ymgynghori cyhoeddus. Fel arfer rhoddir cyfnod o dair wythnos i wahodd adborth. Mae dosbarthiad y llythyr ymgynghori yn seiliedig ar yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd o fewn 100 metr i'r cynnig prosiect, er y gall hyn gynnwys ffyrdd pengaead neu gellir ei ymestyn pan fo angen.*
- ***Cam 3:*** *Cyflwynir adborth gan y cyhoedd i Gynghorwyr Ward lleol mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad, ac yna gofynnir am gymeradwyaeth gan y Cynghorwyr er mwyn symud ymlaen i'r camau gweithredu.*

Yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad cychwynnol (Mawrth 2023), cafodd y pecyn ymgynghori ei arddangos (ar y wal) yng Nghanolfan Gymunedol Pen-y-lan gydol cyfnod yr ail ymgynghoriad (rhwng 16 Rhagfyr 2022 a 15 Ionawr 2023). Cafodd hwn ei arddangos yn y cyntedd er mwyn cael sylw defnyddwyr y llyfrgell a Better GLL.

Wrth i fesurau eraill gael eu hychwanegu at Heol Tŷ Draw Road a Pen-y-Wain Place o dan y cynllun, estynnwyd yr ardal y dosbarthwyd llythyrau ynddi o gymharu ag ardal yr ymgynghoriad cychwynnol er mwyn ystyried y nodweddion a ychwanegwyd at y cynllun.

Roedd hysbysiadau safle hefyd yn cael eu harddangos o amgylch y safle er mwyn cael sylw defnyddwyr y caeau chwaraeon, neu'r rhai a oedd yn ymweld â'r cae chwarae (gweler adran 3.3 am gopi o'r hysbysiadau safle). Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r Cyngor yn cysylltu ag unigolion penodol a allai fod wedi rhoi adborth yn flaenorol. Dim ond y bobl hynny, fel y nodir yng Ngham 2 y broses ymgynghori safonol ar gyfer cynlluniau prosiectau trafnidiaeth, y cysylltir â hwy.

***Cyrchu dogfennau ar-lein:*** Mae adborth yn ymwneud â chanfod gwybodaeth ar wefan y Cyngor wedi'i nodi. Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu diweddaru gwefan y Cyngor, neu gael gwefan benodol i ddarparu gwybodaeth am gynlluniau trafnidiaeth a theithio llesol.

***Gwrando ar safbwyntiau:*** Rydym yn hyderus bod yr adborth a gafwyd hyd yma yn ymdrin â'r holl faterion allweddol a hoffem hefyd eich sicrhau bod yr holl adborth sy'n dod i law yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio i lywio cynnig y cynllun.

Nid yw bob amser yn bosibl rhagweld adborth gan y cyhoedd, neu farn ar nodweddion penodol cynnig. Felly, efallai na fydd cwestiynau yn yr arolwg ar-lein o reidrwydd yn targedu safbwynt unigolyn penodol. Am y rheswm hwn, mae blychau testun agored ar gael, a gall ymatebwyr ddewis ysgrifennu at y Cyngor yn uniongyrchol.

O ran nifer yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad cychwynnol, nodwyd nad oedd gan fwyafrif y bobl nad oeddent wedi ymateb unrhyw wrthwynebiadau na barn ar y cynnig.
Nid yw'r ymgynghoriadau yn fath o refferendwm ac, ar y sail hon, defnyddir y data i fesur barn a defnyddir adborth i lywio gwaith cynllunio'r prosiect. Felly gall y safbwyntiau sy'n dod i law fod yn wahanol i farn neu bolisïau'r Cyngor. Rhaid i ni hefyd wneud penderfyniadau ar sail strategaeth ehangach y cynnig o dan sylw, gofynion dylunio, diogelwch, a/neu gyfyngiadau priffyrdd. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn gwrando ar adborth neu nad ydym wedi'i ystyried.

Yn ystod y broses ymgynghori, rydym yn parhau i ddatblygu'r cynllun. Gall hyn gynnwys gwaith ymchwilio ar y safle i lywio'r gwaith cynllunio manwl, yn ogystal â gwneud gwaith modelu ar y rhwydwaith. Fel rhan o'r cynnig presennol hwn, rydym yn gwneud gwaith modelu ar draws y rhwydwaith cyfan, y gellir ei ddefnyddio i fireinio'r cynllun yn ogystal â llywio elfennau eraill o'r cynllun ehangach sy'n cael ei ddatblygu, a/neu brosiectau strategol eraill sy'n cael eu datblygu yn y ddinas.

## Teithio Llesol, aer glân ac ymddygiad beicwyr

***Teithio llesol/aer glân a'r llwybr beicio:***
Er mwyn annog pobl i adael eu ceir i a defnyddio dulliau teithio sy'n fwy cynaliadwy, mae'n bwysig hybu teithio llesol a theithio cynaliadwy ledled Caerdydd. Mae hyn yn cael ei wneud drwy wella llwybrau beicio, arosfannau bysiau, a llwybrau bysiau, sy'n rhan annatod o'r cynllun hwn. Mae'r mesurau arfaethedig fel rhan o'r cynigion hyn yn cyd-fynd â hierarchaeth ffyrdd o ran rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu mesurau teithio llesol a mynediad at ddulliau cynaliadwy o deithio yn hytrach na defnyddio ceir. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno gwahanol dargedau i gyflawni hyn fel yr amlinellwyd ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth a Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

Er ein bod yn anelu at fynd i'r afael â phryderon diogelwch ffyrdd fel rhan o'r cynllun sy'n cael ei ddatblygu, nid cynllun adweithiol a arweinir gan anafiadau ffyrdd ydyw, ond cynllun rhagweithiol i annog newid moddol. Wrth i gynlluniau ddatblygu, rydym yn ceisio mynd i'r

afael â materion priffyrdd eraill pan fo'n bosibl, neu archwilio cyfleoedd i wneud gwelliannau o ran teithio llesol neu wella trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r cynigion o fewn Cae Rec y Rhath yn rhan o lwybr ehangach a gaiff ei ddatblygu yn y dyfodol o ganol y ddinas i ardal Parc y Rhath. Bydd y llwybr ehangach yn cynnig cyfle i gysylltu â llwybrau beicio eraill yn y dyfodol, tra'n dwyn buddion allweddol megis hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio a theithio llesol i ysgolion a chyflogaeth a hybu cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd trywydd y llwybr ehangach yn mynd ar hyd Heol Richmond, Heol Albany, Heol Wellfield, Heol Ninian a Heol Orllewinol y Llyn. Byddwn yn ymgynghori ar y llwybr ehangach yn y dyfodol agos.

***Ymddygiad beicwyr***: Yn anffodus, mae ymddygiad beicio gwael yn digwydd ac mae'n debygol iawn y byddai'r unigolion hynny sy'n dewis beicio mewn ffordd ddi-hid, neu ddim yn unol â chynllun y briffordd, hefyd yn mabwysiadu'r un agwedd wrth ddefnyddio dulliau eraill o deithio. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i dargedu materion penodol, yn ogystal â chynnwys nodweddion yn y cynllun i rybuddio neu gynghori defnyddwyr i rannu gofodau yn gyfrifol. Mae hyn hefyd yn cynnwys nodweddion ar gyfer y rhai ag anghenion hygyrchedd. Bydd hefyd yn cymryd amser i'r nodweddion beicio arddull newydd ddod yn rhan o'n profiad dyddiol wrth ddefnyddio'r briffordd. O'r llwybrau dros dro a chael gwybodaeth o ddinasoedd eraill, rydym yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i ddatblygu'r cynlluniau sy'n cyd-fynd â hierarchaeth ffyrdd, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu mesurau teithio llesol a mynediad at ddulliau cynaliadwy o deithio yn hytrach na defnyddio ceir.

## Coed a'r llwybr beicio drwy'r parc

***Colli coed:*** Nid yw'r cynllun presennol yn gofyn am gael gwared ar goed o fewn ardal y cae chwarae, ond mae tair coeden wedi'u nodi fel rhai sydd â chlefyd a byddant yn cael eu tynnu ymaith, a chaiff peth gwaith tocio ei wneud hefyd. O fewn y cae chwarae, mae'r cynllun wedi cael ei addasu er mwyn gwarchod y coed ymhellach, a hynny o ganlyniad i'n proses ymgynghori ac ymgysylltu. Caiff rhai coed eu tynnu ymaith yng nghyffiniau'r maes parcio, ond bydd chwe choeden newydd yn cael eu plannu.

Fel rhan o'r broses adeiladu, bydd y contractwr penodedig yn cysylltu ag arbenigwyr coed i sicrhau bod coed yn cael eu gwarchod. Ceir rhagor o wybodaeth am newidiadau i'r cynllun yn adran 4 yr adroddiad hwn.

***Y llwybr beicio trwy'r cae chwarae:*** Bydd y llwybr beicio ar wahân yn cael ei osod o fewn y cae chwarae ac i ffwrdd o gerbydau sydd wedi parcio. Bydd y llwybr ar wahân ymhellach i ffwrdd o'r llwybr gwreiddiol a gynlluniwyd, a bellach mi fydd yn rhedeg ar hyd llinell y llwybr troed. Y prif reswm am hyn yw i amddiffyn y coed ymhellach drwy osod y llwybr beicio y tu allan i'r ardal amddiffyn gwreiddiau coed.

Oherwydd y bydd y llwybr ar wahân ymhellach o'r llinell goed, bydd y gweledededd i gerddwyr a beicwyr yn well ac yn golygu y bydd gan ddefnyddwyr fwy o amser i ymateb i amodau amrywiol neu i ddefnyddwyr eraill. Bydd arwyddion, croesfannau dynodedig a phalmentydd botymog yn cael eu defnyddio i helpu defnyddwyr a'r rhai ag anghenion hygyrchedd. 'Bydd arwyddion 'Rhannu'n Ofalus' hefyd yn cael eu hystyried er mwyn atgoffa'r holl ddefnyddwyr i rannu'r gofod mewn ffordd gyfrifol.

O ran golau, newidiwyd y cynnig gwreiddiol – sef defnyddio goleuadau lefel isel – i ddefnyddio goleuadau lefel uwch mwy confensiynol er mwyn gwella'r defnydd o'r llwybr ar wahân gyda'r

nos. Mae arolygon ecolegol wedi nodi y bydd yr ardal ar hyd y llwybr yn cael effaith isel ar ystlumod, tra bod yr ardal ar hyd Nant Lleucu (Roath Brook) yn fwy tebygol o fod yn sensitif o safbwynt ystlumod, lle'r ydym ond yn cynnig lledu'r droedffordd.

Rydym wedi edrych ar opsiynau ar gyfer llwybrau, gan gynnwys lleoli'r llwybr beicio ar Heol Tŷ Draw, y byddai mesurau ar y ffordd neu oddi ar y ffordd ar ei gyfer yn effeithio'n negyddol ar goed neu ar fannau parcio presennol. Mae hyn oherwydd nad oes llawer o le ar y briffordd cyfyngedig, neu oherwydd bod y llwybrau presennol yn rhedeg wrth ymyl y nant. Mae system unffordd wedi cael ei hawgrymu ond, er y gallai cyflwyno system unffordd ar raddfa fawr fod o gymorth i rai defnyddwyr, mae'n debyg y byddai cyflwyno system unffordd o amgylch y parc cyfan yn arwain at gynnydd yng nghyflymder cerbydau ar y ffordd gan na fyddai unrhyw beth i rwystro gyrwyr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai mwy o draffig ar y ffyrdd ochr oni bai eu bod hwythau hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o system unffordd. I ddefnyddwyr bysiau, byddai hefyd yn golygu llwybr dargyfeirio sylweddol iddynt ar ddechrau eu taith neu ar ei ddiwedd.

Bydd y cynnig presennol yn ategu natur chwaraeon y cae chwarae drwy hyrwyddo teithio llesol i gael mynediad iddo. Bydd hefyd yn cysylltu ag Ysgol Gynradd y Rhath drwy'r groesfan sebra bresennol ar Heol Ninian a fydd yn cael ei huwchraddio i groesfan gyfochrog, gan olygu y bydd plant ysgol yn gallu defnyddio'r llwybr i gyrraedd yr ysgol a chael mynediad i'r maes chwarae. Mae yna fantais ychwanegol hefyd fod y mannau parcio ar y stryd yn cael eu cadw ar gyfer y parc.

***Ardal gadwraeth:*** Mae'r cae chwarae yn safle gardd rhestredig ond, , er nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun, fel rhan o'r broses ddylunio, byddwn yn cysylltu ag arbenigwyr treftadaeth tirwedd i nodi sut y gallwn leihau'r effaith weledol. Ar Heol Ninian, er mwyn cadw'r cymeriad, rydym yn anelu at gadw ardaloedd o lechfaen Pennant o fewn yr ardal gadwraeth drwy wneud gwaith atgyweirio / atgyfnerthu'r palmant yn unol â hynny. Mewn ardaloedd bach lle mae ychydig iawn o gerrig sydd ar ôl, byddem yn ceisio ailddosbarthu'r cerrig hyn i ardaloedd cyfagos er mwyn atgyweirio / amnewid slabiau sy'n eisiau.

***Y data a ddefnyddir ar gyfer y llwybr beicio:*** Er mwyn lliniaru effeithiau trafnidiaeth yn sgil y twf disgwyliedig yn y boblogaeth yng Nghaerdydd, yn ogystal â chyfyngu ar effeithiau negyddol trafnidiaeth ar y newid yn yr hinsawdd, ansawdd aer, iechyd, a'r economi, mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a'r Papur Gwyn ar Drafnidiaeth yn gosod targedau ar gyfer cynyddu lefelau teithio llesol.

Er mwyn annog pobl i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy a chyflawni dyheadau Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd, mae'n bwysig annog teithio llesol a dulliau cynaliadwy o deithio ledled Caerdydd. Mae adroddiad Bike Life 2019 Sustrans yn dangos bod galw am fuddsoddi mewn cyfleusterau beicio o safon yng Nghaerdydd. Mae 80% o drigolion Caerdydd a holwyd yn meddwl y byddai mwy o lwybrau beicio sydd wedi'u gwahanu oddi wrth draffig a cherddwyr yn eu helpu i feicio mwy; mae 73% yn cefnogi adeiladu traciau beicio (hyd yn oed gyda llai o le ar gyfer traffig ffyrdd eraill); ac nid yw 27% yn beicio ar hyn o bryd ond hoffent wneud hynny.

Yn ystod cyfyngiadau symud cyntaf COVID-19, profodd amryw drefi a dinasoedd gynnydd sylweddol mewn teithiau llesol. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o fesurau cadw pellter cymdeithasol a'r ffaith bod llai o draffig yn llifo a oedd, yn ei hanfod, yn gwneud gwahanol amgylcheddau priffyrdd yn fwy ffafriol i gerdded a beicio.

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, a all gynnwys arolygon cyfrif traffig. Cynhaliwyd arolwg cynhwysfawr yn ddiweddar dros ardal fawr i lywio nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, er y cynhelir arolygon lleol hefyd pan fo angen. O ran y ffigurau penodol o bobl sy'n beicio ar hyd Heol Ninian ar hyn o bryd, yn ôl data arolwg traffig ym mis Mawrth 2022, ar gangen Heol Ninian o gyffordd Heol Wellfield a Heol Pen-y-lan, cofnodwyd 42 o feicwyr yn ystod yr awr frig yn y bore a 35 yn ystod yr awr frig yn y prynhawn. Dim ond beicwyr ar hyd un gangen o'r gyffordd y mae hyn yn ei ystyried ac nid beicwyr a allai fod wedi ymuno neu ymadael ar hyd Heol Ninian cyn cyffordd Heol Wellfield, neu ganghennau eraill o'r gyffordd.

Mae gwaith modelu traffig yn cael ei wneud fel rhan o'r broses barhaus o archwilio opsiynau ar gyfer y llwybr ehangach, a fydd yn llywio cyffyrdd allweddol ar hyd y llwybr. Mae gwaith modelu penodol wedi cael ei wneud ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian, er bod hyn wedi'i anelu at ddeall yr effaith bosibl ar gapasiti'r cyffordd. Mae canlyniad y gwaith modelu hwn wedi dangos y bu gwelliant i'r sefyllfa bresennol ar y gyffordd, wrth ystyried gwaharddd symudiadau troi penodol a newid cyfnodau'r signalau.

## Cynllun maes parcio'r Ganolfan Gymunedol

***Cynllun y maes parcio:*** Mae angen newid y maes parcio er mwyn gwneud lle i'r llwybr beicio drwy ochr Heol Ninian o'r maes parcio, er mwyn lleihau'r gwrthdaro posibl rhwng beicwyr a cherbydau sy'n ymadael â'r maes parcio i ymuno â Heol Ninian, neu sy'n stopio ar y llwybr beicio. Mae cynllun y maes parcio yn bodloni'r safonau dylunio cyfredol ac mae hefyd wedi bod yn destun dadansoddiad llwybr cyflym o gerbydau.

Er mwyn gwella mynediad cerddwyr i'r maes parcio, bu'n rhaid cael gwared ar un o'r mannau parcio i ddefnyddwyr anabl o fewn y maes parcio fel rhan o'r cynllun newydd. Bydd cyfanswm o dair cilfan i ddefnyddwyr anabl, 46 o fannau cyffredinol, man parcio i feiciau modur a dau fan parcio ar gyfer cerbydau trydan (sef 52 o fannau parcio i gyd, gan cynnwys y man parcio i feiciau modur). Byddai'r gymhareb parcio o fewn y safonau parcio a ganiateir pe byddai'r adeilad yn cael ei ddatblygu fel adeilad newydd.

Byddai palmentydd cyffyrddol ac arwyddion yn cael eu defnyddio o amgylch y safle pe bai angen er mwyn helpu'r holl ddefnyddwyr i ryngweithio o fewn y gofod. Bydd mynediad i'r ardal ddanfoniadau yn cael ei reoli gyda bolardiau y gellir eu symud er mwyn atal pobl rhag ymadael heb awdurdod i Heol Ninian ar draws y llwybr beicio.

Mae cyflwyno'r llwybr beicio yn y lleoliad hwn yn lleihau'r effaith bosibl ar ddyranniad lonydd yn y gyffordd gyfagos ac, felly, yr effaith ganlyniadol ar y gyffordd o safbwynt ei chapasiti.

***Parcio:*** Mae Heol Tŷ Draw yn ffordd fynediad leol ac mae troedffordd gul o boptu'r ffordd. Mae ymchwil wedi dangos y gall rhannau cul o briffordd, gan gynnwys mannau parcio, arwain at leihau cyflymder. Mae'r mannau parcio ar ochr dibreswyl Heol Tŷ Draw wedi'u nodi ac, er nad oes cyfyngiadau parcio i atal parcio ar yr ochr hon, bydd mesurau rheoli parcio ar gyfer y cynllun presennol yn cael eu datblygu fel rhan o'r llwybr ehangach.

Rhagwelir y bydd y cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer y llwybr ehangach yn effeithio ar barcio ar y stryd. Mae'r Cyngor wedi bod yn cyflwyno newidiadau i barcio ar gyfer ardaloedd tebyg fesul parth. Mae'r cynlluniau parcio hyn yn ei gwneud yn bosibl darparu mwy o fannau parcio i breswylwyr a pharcio aros cyfyngedig a reolir er mwyn lleihau parcio gan gymudwyr a

gwella cyfleoedd parcio i fusnesau a phreswylwyr. Nid oes unrhyw gynlluniau penodol fel rhan o'r ymgynghoriad penodol hwn, ond bydd cynlluniau'n cael eu darparu yn y dyfodol i'w hystyried. Mae'n bosibl y bydd rhai parthau'n cael eu cyflawni fel rhan o'r llwybrau beicio sy'n cael eu datblygu neu ar wahân er mwyn mynd i'r afael â phroblemau lleol neu i gynnwys parcio talu ac aros. Bydd y rhain yn rhan o broses gorchymyn rheoleiddio traffig gyfreithiol, y gall unigolion wneud sylwadau arni pan ymgynghorir â hwy.

## Pen-y-Wain Place a Heol Ninian

***Pen-y-Wain Place:*** Mae Pen-y-Wain Place wedi'i nodi ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol fel llwybr cerdded / beicio eilaidd, er nad oedd yn rhan o'r cynnig hwn yn wreiddiol. Yn dilyn adolygiadau cynllunio mewnol, ychwanegwyd y llwybr cyswllt hwn er mwyn sicrhau parhad y llwybr beicio, ac mae wedi'i anelu at hwyluso mynediad i'r ysgol ar gyfer defnyddwyr iau.

Gan fod y ffordd yn un breswyl, nid oes digon o le ar y briffordd i ddarparu llwybr beicio ar wahân neu lonydd beicio wedi'u marcio'n ffurfiol ar y gerbytffordd, heb golli mannau parcio preswyl neu ymyriad sylweddol megis datblygu cynllun llawn a oedd yn ymgorffori cynllun Strydoedd Ysgol.

Ar y sail mai llwybr eilaidd yw hwn ac nad yw cynllun Stryd Ysgol o fewn cwmpas y prosiect hwn ar hyn o bryd, barnwyd mai cyfleuster cyswllt a rennir yw'r mesur mwyaf priodol ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, mae potensial i ailymweld â'r cysylltiad hwn yn y dyfodol, a fydd hefyd yn cynnig cyfle i fonitro'r arwyneb a rennir.

***Heol Ninian:*** Mae Heol Ninian yn ffordd ddosbarthu eilaidd ac yn llwybr bws presennol sy'n darparu llwybr cyswllt allweddol ar gyfer yr ardal. Mae'n debygol y byddai cau Heol Ninian i draffig yn llwyr yn golygu y byddai swm sylweddol o draffig yn cael ei ddadleoli i'r ffyrdd ochr.

O ran cyflwyno system unffordd ar Heol Ninian, mae'n debygol y byddai cyflymder cerbydau'n cynyddu ar y ffordd o ganlyniad, gan na fyddai unrhyw rwystrau i yrwyr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai mwy o draffig ar y ffyrdd ochr oni bai eu bod hwythau hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o system unffordd. I lawer o drigolion yr ardal, byddai hyn yn achosi anghyfleustra, yn enwedig wrth iddynt geisio dod o hyd i fannau parcio. I ddefnyddwyr bysiau, byddai hefyd yn golygu y byddai'r llwybr dargyfeirio ar ddechrau neu ddiwedd eu taith yn sylweddol.

## Cael gwared ar y mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw

***Cefndir:*** Gall mannau cul â blaenoriaeth fod yn ffordd effeithiol o ostegu traffig ond, o dan amodau pan fo traffig yn llifo'n rhwydd, megis amseroedd llai prysur, gall traffig deithio drwy'r mannau cul â blaenoriaeth heb fod angen iddo arafu.

Cynhaliwyd arolygon traffig sydd wedi nodi bod cyflymder yr 85ed canradd presennol hyd at 11 mya dros y terfyn cyflymder o 20 mya sydd ar arwyddion. Mae hefyd yn llwybr teithio llesol poblogaidd. Mae Heol Tŷ Draw hefyd wedi'i nodi fel llwybr beicio eilaidd ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

O ganlyniad i asesiad o'r data sydd ar gael, argymhellwyd y dylid disodli'r mannau cul presennol â blaenoriaeth gyda chyfleusterau croesi ymwthiol nas rheolir a gosod nodwedd

bwrdd arafu ychwanegol rhwng cyffordd Heol y Gwernydd a Chlos Derwen er mwyn lleihau cyflymder cerbydau a gwneud y ffordd yn fwy hwylus ar gyfer teithio llesol.

Mae byrddau arafu yn fodd effeithiol o leihau cyflymder traffig ac maent yn effeithiol dan amodau brig ac allfrig.

***Lleoliadau:*** Mae lleoliad ychwanegol wedi cael ei ychwanegu er mwyn cadw'r bwlch yn gyson rhwng y byrddau arafu a thrwy hynny sicrhau cyflymder is ar hyd y ffordd gyfan. Dewiswyd y lleoliad ychwanegol hefyd o ganlyniad i'r arolygon cerddwyr a gynhaliwyd, a nododd linell ddymunol gan gerddwyr ger y gyffordd â Heol y Gwernydd.

Mae byrddau dyrchafedig hefyd yn helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn a defnyddwyr eraill â phroblemau hygyrchedd gan fod symud o'r droedffordd i'r groesfan yn digwydd ar yr un lefel. Darperir palmentydd botymog hefyd er mwyn cynorthwyo defnyddwyr ag amhariad ar y golwg. Bydd ochr breswyl y ffordd, lle mae parcio'n digwydd, yn cael ei hadeiladu i ymwthio allan fel y bydd cerddwyr yn gallu gweld heibio i gerbydau sydd wedi parcio.

## Heol Tŷ Draw fel llwybr beicio

***Heol Tŷ Draw fel llwybr beicio:*** Rydym wedi ymchwilio i gyflwyno llwybr beicio ar hyd Heol Tŷ Draw ond, oherwydd y cyfyngiadau ar y briffordd, ni fyddai digon o le ar gael.

Mae'r ffordd tua 7.1 metr o led a lled y troedffyrdd gogleddol a deheuol yw 2.2 metr a 2.6metr yn y drefn honno. Lled man parcio yw 2.1 metr sy'n golygu bod 5 metr o le ar gael ar y ffordd ar hyn o bryd. Fel rheol, mae llwybrau beicio ar wahân fel arfer rhwng 2.5 metr a 3.0 metr o led sy'n golygu y byddai rhwng 2 metr a 2.5 metr o le ar ôl ar gyfer traffig dwy ffordd, sy'n annigonol. Byddai tua 3.7 metr yn ddymunol ar gyfer system draffig unffordd.

Ar y sail hon, ni fyddai'n bosibl darparu llwybr beicio dau gyfeiriad ar wahân neu risiog ar Heol Tŷ Draw heb golli'r holl fannau parcio neu ledu'r ffordd i'r llain laswellt a fyddai'n effeithio ar y coed presennol.

Mae'r llwybr troed ger Nant Lleucu ar ochr Heol Tŷ Draw yn anaddas oherwydd pa mor agos ydyw i goed ac ni fyddai'n bosibl goleuo'r llwybr am resymau ecolegol. Ni fyddem ychwaith yn goleuo'r llwybr troed ar ochr y parc i Nant Lleucu am yr un rheswm, a fyddai'n cyfyngu ar y defnydd o'r llwybr fel llwybr beicio gydol y flwyddyn neu yn ystod y nos. Mae'r llwybr ar ochr Heol Ninian i'r Cae Rec yn cynnig gwell cysylltiadau â chyfleusterau lleol.

Mae Heol Tŷ Draw hefyd wedi'i nodi fel llwybr beicio eilaidd ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Bydd y newidiadau sy'n gysylltiedig â chael gwared ar y mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw yn gwneud y ffordd yn fwy ffafriol i deithio llesol.

## Trefniant cyffordd â signalau


***Trefniant cyffordd â signalau:*** Mae gofod y briffordd ger y gyffordd wedi'i ailddyrannu lle bo modd er mwyn gwella hygyrchedd i gerddwyr a beicwyr, yn enwedig yn y mannau aros. Fel rhan o'r newidiadau i'r gyffordd, yn enwedig amseriadau'r signalau a'r gwaharddiadau ar symudiadau troi, dylai'r gyffordd weithredu'n fwy effeithlon, sy'n golygu bod mwy o amser ar gael i gwrdd â'r galw gan symudiadau cerbydau neu gerddwyr pan fo angen.

Yn ogystal â chyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian, rydym ar hyn o bryd yn adolygu cyffordd Heol Pen-y-lan / Heol Kimberley / Heol Tŷ Draw. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ymchwilio i gyflwyno signalau i'r gyffordd hon ac yn darparu cyfleoedd i feicwyr gysylltu â Llwybr Beicio'r Rhath a'r tu hwnt, megis Beicffordd 2. Mae Heol Pen-y-lan wedi'i nodi ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol fel prif lwybr cerdded / beicio, ac mae Heol Kimberley wedi'i nodi fel llwybr beicio eilaidd. Byddwn wrth gwrs yn ymgynghori ar unrhyw gynigion pan fyddant ar gael.

## 3.2. Gwahardd symudiadau troi ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough Road / Heol Ninian

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried yr ohebiaeth ysgrifenedig a gafwyd yn ymwneud â'r gwaharddiad arfaethedig ar symudiadau troi ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Ninian.

***Cefndir*** – Ar hyn o bryd, mae cyffordd â signalau Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Ninian yn gweithredu ar bedwar cam fel y dangosir yn **Ffigur 3.2.1**.




**Ffigur 3.2.1 – Diagram o gyfnodau'r signalau ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Ninian (presennol)**

Er mwyn ei gwneud yn bosibl i feicwyr groesi'r gyffordd yn ddiogel, mae angen cyflwyno cyfnod signal ychwanegol i amseriadau'r signalau. Mae hyn er mwyn i feicwyr allu croesi'r ffordd pan nad yw traffig yn llifo, neu pan nad yw cerddwyr yn cael eu gwahodd i groesi un o freichiau'r gyffordd (symbol dyn coch). Byddai cyflwyno cyfnod ychwanegol i ddarparu ar gyfer croesfan feiciau yn golygu y byddai angen rhannu'r amser presennol ar gyfer y pedwar cyfnod ar draws pum cyfnod. O ganlyniad, byddai llai o amser yn cael ei neilltuo i bob cyfnod, gan olygu bod llai o amser golau gwyrdd ar gyfer traffig (a bod llai o draffig yn mynd trwy'r signalau traffig neu ar draws y llinell stopio).

Weithiau, gall croesfannau beiciau weithredu'r un pryd â chyfnod i draffig neu gyfnod i gerddwyr, ond ar yr achlysur hwn byddai beicwyr yn gwrthdaro â cherddwyr sy'n croesi cangen Heol Wellfield o'r gyffordd a'r groesfan groeslin. Mae hyn oherwydd bod yr holl symudiadau cerddwyr yn gweithredu ar y gyffordd hon ar yr un pryd yn ystod un cyfnod, a elwir yn 'cyfnod coch i gyd'.


Yn wyneb yr uchod, cyflwyno cyfnod ar wahân er mwyn i feicwyr groesi'r gyffordd yw'r dull rheoli mwyaf priodol yn y lleoliad penodol hwn.

Er mwyn lleihau'r galw am amser ychwanegol y byddai cyfnod ychwanegol yn ei gyflwyno i'r gyffordd, mae angen inni edrych ar ffyrdd eraill o arbed amser. Gwneir hyn drwy waith modelu cyffyrdd / traffig.

***Gwaith modelu cyffyrdd:*** Er mwyn lleihau'r effaith y byddai cyfnod signal ychwanegol yn ei chael ar y gyffordd (o ganlyniad i ychwanegu cyfnod i feiciau), rydym wedi cynnal gwaith modelu traffig ar y gyffordd. Gwneir hyn gan ddefnyddio meddalwedd arbennig sy'n modelu signalau traffig a'u heffaith ar y swm o draffig a chiwio. Defnyddir y feddalwedd hon hefyd i optimeiddio amseriadau signalau er mwyn lleihau oedi neu gynyddu capasiti ar gyffordd.

Mae'r gwaith modelu traffig yn ystyried y data arolwg traffig diweddaraf i greu amodau gwaelodlin ac, o hyn, mae gwahanol senarios o'r gyffordd yn cael eu profi. Er enghraifft, rhedeg y cyfnodau presennol gyda chyfnod ychwanegol ar gyfer beiciau, neu redeg cyfnodau penodol o fewn un cyfnod ar yr un pryd, neu edrych ar gael gwared ar lonydd traffig neu wahardd symudiadau troi.

Dangosir data arolwg traffig y gyffordd yn **Ffigur 3.2.2**. Gellir gweld bod ffigurau'r symudiadau troi yn isel ar gyfer cerbydau sy'n troi i'r dde o Heol Wellfield a Heol Marlborough yn ystod y cyfnodau brig yn y bore a'r prynhawn.




**Ffigur 3.2.2 – data arolwg traffig ar gyfer cyffordd â signalau Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Ninian (mis Mawrth 2022)**

***Asesu gwaith modelu cyffyrdd:*** Fel rhan o waith modelu ar ei ben ei hun, fe wnaethom nodi, drwy redeg cyfnodau traffig Heol Pen-y-lan a Heol Wellfield yr un pryd, y byddai perfformiad y gyffordd yn gwella. Er mwyn galluogi hyn, gwnaethom edrych hefyd ar y manteision o wahardd symudiadau troi penodol – sydd wedi arwain at y cynnig cynllunio presennol.

Rydym wedi ystyried nifer o newidiadau posibl (drwy waith modelu), ac ar ôl pwyso a mesur, mae'r symudiadau troi a ddewiswyd (i'w gwahardd) wedi'u dewis ar sail y galw, y capasiti a'r perfformiad gorau ar gyfer y gyffordd. Byddai dileu'r gwaharddiadau arfaethedig a'r symudiadau troi yn arwain at golli mwy o gapasiti i'r gyffordd.

Yn ôl gwaith modelu'r gyffordd, byddai'r gwaharddiadau troi sy'n seiliedig ar y cynnig presennol a chyfnodau arfaethedig y signalau yn arwain at gapasiti wrth gefn o 55% a 48% yn y gyffordd yn ystod cyfnodau brig y bore a'r prynhawn yn y drefn honno (sylwch po uchaf yw'r capasiti wrth gefn, y gorau y mae'r gyffordd yn gweithredu). Mae'r holl newidiadau posibl a ystyriwyd naill ai'n arwain at golli capasiti yn ystod cyfnod brig y bore, cyfnod brig y prynhawn neu'r ddau. O gymharu, mae'r cyfnod sy'n weithredol ar y safle ar hyn o bryd yn rhoi capasiti wrth gefn o 32% a 33% ar y gyffordd yn ystod cyfnodau brig y bore a'r prynhawn yn y drefn honno. Mae'r trefniant arfaethedig yn darparu capasiti wrth gefn ychwanegol (sy'n fanteisiol i'r gyffordd). Bydd gwaith modelu pellach yn cael ei wneud ar lefel rhwydwaith a fydd yn ymgorffori prosiectau strategol eraill sy'n cael eu datblygu.

Crynhoir canlyniad y gwaith modelu ar gyfer y gyffordd yn **Atodiad B**.

***Dadleoli traffig****:* O ystyried yr opsiynau amgen uchod sydd ar gael, mae'n debygol y byddai'r mân ddadleoliadau traffig sy'n gysylltiedig â'r opsiwn arfaethedig (gyda gwaharddiadau ar symudiadau troi), yn gorbwyso unrhyw effaith negyddol y byddai'r opsiynau amgen yn ei chreu. Wrth ystyried y data arolwg traffig diweddaraf, mewn cysylltiad â Heol Wellfield, mae'r traffig sydd wedi'i ddadleoli yn ystod cyfnod brig y bore yn cyfateb i un cerbyd bob 20 munud yn teithio ar hyd llwybr gwahanol ac un cerbyd bob pedwar munud yn ystod cyfnod brig y prynhawn. Yn yr un modd, ar gyfer traffig sy'n troi i Heol Pen-y-lan o Heol Marlborough, mae'r traffig sydd wedi'i ddadleoli yn ystod cyfnod brig y bore yn cyfateb i un cerbyd bob dau funud yn teithio ar hyd llwybr gwahanol ac un cerbyd bob pedwar munud yn ystod oriau brig y prynhawn. Byddai cyrchfannau'r traffig sydd wedi'i ddadleoli hefyd yn amrywio, felly mae'n debygol y bydd unrhyw draffig sy'n cael ei ddadleoli yn ystod cyfnodau brig y bore neu'r prynhawn sy'n dargyfeirio i ffyrdd eraill yn ddibwys ac yn debygol o fod ymhell o fewn capasiti'r ffordd.

Rydym eisoes wedi cynnal arolygon fel rhan o ymarfer arolwg traffig diweddar, ond byddwn yn cynnal rhagor o arolygon ychwanegol yn yr ystâd i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd er mwyn benderfynu pa un a oes angen cyflwyno unrhyw fesurau pellach fel rhan o'r gwaith monitro ôl-weithredu. Bydd yr arolygon hyn hefyd yn cael eu defnyddio fel rhan o ragor o waith archwilio opsiynau ar gyfer y llwybrau er mwyn ei gysylltu â chyrchfannau a llwybrau beicio eraill.

Mae'n bosibl y byddai'r oedi tebygol o ganlyniad i beidio â gwahardd symudiadau troi yn golygu y byddai'r traffig ar y gyffordd yn llethu ei chapasiti ac yn arwain at ddadleoli traffig i nifer o ffyrdd ochr.

Yn ogystal â chyffordd Heol Wellfield, rydym yn ymchwilio i welliannau i gyffordd Heol Albany / Heol Wellfield fel rhan o ddatblygiad llwybr ehangach. Fel rhan o'r broses hon o asesu gwaith modelu'r gyffordd, rydym yn bwriadu penderfynu a ellid caniatáu symudiad troi i'r dde o Bangor Street. Byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i drigolion Bangor Street neu ymwelwyr

â hi giwio i gyfeiriad y gogledd ar Heol Wellfield er mwyn ail-ymuno â'r rhwydwaith priffyrdd, a fyddai felly'n lleihau'r galw ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian.

I atal traffig trwodd, byddem yn ystyried cyfyngu mynediad ar hyd Bangor Street. Byddai caniatáu i draffig droi i'r dde wedyn yn ei gwneud yn bosibl i draffig cyfyngedig ymadael i Heol Albany naill ai tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin. Mae cyfnod i feiciau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ar gyffordd Heol Albany / Heol Wellfield.

## 3.3. Ymateb i gau Heol y Gwernydd (*Alder Road*)

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried yr ohebiaeth a gafwyd mewn perthynas â'r bwriad i gau Heol y Gwernydd i draffig cerbydau trwodd, fel rhan o broses yr ail ymgynghoriad.

***Gwybodaeth ymgynghori yn ymwneud â chau Heol y Gwernydd – yn gyffredinol:*** Awgrymodd cyfran fach o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw wybodaeth, neu fod ychydig iawn o wybodaeth, ar gael ynghylch y bwriad i gau Heol y Gwernydd i draffig cerbydau trwodd. Nid yw hyn yn gywir, oherwydd darparwyd gwybodaeth yn y pecyn ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol, ym mhecyn yr ail ymgynghoriad (Canlyniad yr Ymgynghoriad a Diweddariad), yr hysbysiad safle cychwynnol ac yn yr adroddiad ar yr ymgynghori.


***Gwybodaeth ymgynghori yn ymwneud â Heol y Gwernydd – Hysbysiadau safle****:* Mae **Ffigur 3.3.1** a **Ffigur 3.3.2** yn dangos yr hysbysiadau safle a arddangoswyd ar y safle ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol a'r ail ymgynghoriad yn y drefn honno.

Gellir gweld bod **Ffigur 3.3.1** yn datgan: *"Heol y Gwernydd ar gau yma".*

Nid yw **Ffigur 3.3.2** yn cyfeirio at y cau, gan mai prif ddiben yr ail ymgynghoriad oedd cynnig ffordd o ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad cychwynnol. Ehangwyd maint y gwaith oherwydd nodweddion ychwanegol y cynllun, gan olygu bod y cynllun yn llai manwl a bod llai o le ar gael i amlygu holl nodweddion y cynllun.

**Sut i ymateb neu gael rhagor o wybodaeth:** Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun gwella priffyrdd yn seiliedig ar y cynllun a ddangosir. Mae manylion llawn, gan gynnwys darluniadau, arolwg a sut i ymateb, ar gael yn y **Pecyn Ymgynghori.**

Ewch i **www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth**, dewiswch 'ymgynghoriadau' a dewiswch deitl y cynllun. Fel arall, e-bostiwch ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig hwn, **rhowch wybod i ni erbyn 30/03/2022.**





**How to respond or obtain further information:** The Council is consulting on the proposal to implement a highway improvement scheme based on the plan shown. Full details, including drawings, a survey and how to respond, are available in the **Consultation Pack.**

Please visit **www.cardiff.gov.uk/transportprojects** using the 'current consultations' link and selecting the scheme title. Alternatively, please email transportprojects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects Team, County Hall Room 301, Cardiff, CF10 4UW to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal, **please let us know by 30/03/2022.**

**Ffigur 3.3.1 – Hysbysiad Safle 1 ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol (mis Mawrth 2022)**

**Sut i ymateb neu gael rhagor o wybodaeth:** Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun gwella priffyrdd yn seiliedig ar y cynllun a ddangosir. Mae manylion llawn, gan gynnwys darluniadau, arolwg a sut i ymateb, ar gael yn y **Pecyn Ymgynghori**.

Ewch i www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth, gan ddefnyddio'r ddolen 'ymgyngoriadau blaenorol' a dewis teitl y cynllun. Fel arall, e-bostiwch ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig hwn, **rhowch wybod i ni erbyn 06/01/2023.**





**How to respond or obtain further information:** The Council is consulting on the proposal to implement a highway improvement scheme based on the plan shown. Full details, including drawings, a survey and how to respond, are available in the **Consultation Pack**.

Please visit www.cardiff.gov.uk/transportprojects using the 'previous consultations' link and selecting the scheme title. Alternatively, please email transportprojects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects Team, County Hall Room 301, Cardiff, CF10 4UW to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal, **please let us know by 06/01/2023.**

Ffigur 3.3.2 – Hysbysiad Safle 1 ar gyfer yr ail ymgynghoriad (mis Rhagfyr 2022)

***Gwybodaeth ymgynghori yn ymwneud â Heol y Gwernydd – Pecynnau ymgynghori:*** Roedd pecyn yr ymgynghoriad cychwynnol yn rhoi gwybodaeth am y bwriad i gau Heol y Gwernydd ar dudalen 6. Dangosir rhan o dudalen 6 er gwybodaeth yn **Ffigur 3.3.3**.




**Ffigur 3.3.3 – Tudalen 6 becyn yr ymgynghoriad cychwynnol (mis Mawrth 2023)**

Gellir gweld bod **Ffigur 3.3.3** yn datgan: *"Bydd gwelliannau i gyffordd Heol y Gwernydd yn cynnwys symud ac uwchraddio'r groesfan sebra ddyrchafedig bresennol, ail-leoli / gwella safleoedd bysiau a chau pen gorllewinol Heol y Gwernydd."*

Mae tudalen 9 o un pecyn ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y bwriad i gau Heol y Gwernydd yn yr adran Cwestiynau Cyffredin. Dangosir rhan o dudalen 9 er gwybodaeth yn **Ffigur 3.3.4**.

Gellir gweld bod **Ffigur 3.3.4** yn nodi (yn y trydydd paragraff / pwynt): *"A allaf gael mynediad i Heol y Gwernydd o hyd? Gellir, ond er mwyn gwneud mynediad i'r llwybr beicio yn fwy diogel, bydd Heol y Gwernydd ar gau ar ei chyffordd â Heol Ninian a bydd y groesfan sebra yn cael ei hadleoli. Byddai cerbydau'n mynd i Heol y Gwernydd drwy deithio ar hyd Heol Tŷ Draw. Bydd man troi yn cael ei ddarparu."*

**Roath Park Cycle Route**

**Roath Recreation Ground improvements**

Cwestiynau Cyffredin

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Beth ydych chi'n ymgynghori arno'n union? Rydym am wybod eich barn am y cynigion presennol ar gyfer Tir Hamdden y Rhath ac ar hyd Heol Ninian.

Pa welliannau fydd yn cael eu gwneud ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian? Mae'r Cyngor yn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwelliannau cyffredinol i'r gyffordd, yn enwedig i gerddwyr a beicwyr. Bydd y gwelliannau hyn yn integreiddio'r gyffordd â'r cynigion ar gyfer Heol Ninian a'r llwybr beicio dros dro presennol ar Heol Wellfield ac yn cynnwys newidiadau i faes parcio'r Ganolfan Gymunedol.

A allaf barhau i gael mynediad i Alder Road? Gallwch, ond i wneud y mynediad i'r trac beicio yn fwy diogel, bydd Alder Road yn cael ei chau wrth y gyffordd â Heol Ninian a bydd y groesfan sebra yn cael ei symud. Byddai cerbydau'n cael mynediad i Alder Road drwy Heol Tŷ Draw. Darperir man troi.

Beth sy'n digwydd yng nghyffordd Alder Road / Tŷ-Draw Road? Cynigir gosod arwyneb yn dynodi troedffordd barhaus. Mae hyn yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr wrth y gyffordd.

A fydd hyn yn golygu y bydd rhaid colli mannau parcio fel rhan o'r Gwelliannau i'r Cae Chwarae? Ar hyn o bryd, mae'n annhebygol y bydd y cynnig hwn yn cyfrannu at golli unrhyw fannau parcio, ond bydd rhai mannau parcio'n cael eu symud. Mae mesurau rheoli parcio yn cael eu hystyried sy'n cyd-fynd â'r cynllun parcio cynhwysfawr ar gyfer y Ddinas gyfan. Mae mannau ar gyfer parcio beiciau a gorsafoedd llogi beiciau ychwanegol yn cael eu hystyried.

Beth fydd yn digwydd i'r mannau parcio cerbydau yn yr ardal neu fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer y llwybr ehangach? Mewn gwahanol ardaloedd yn y ddinas, mae'r Cyngor wedi bod yn cyflwyno newidiadau i rai ardaloedd ar sail parthol. Mae'r cynlluniau parcio hyn yn galluogi'r gwaith o sicrhau mwy o fannau parcio i breswylwyr a threfniadau parcio cyfyngedig a reolir i ostwng nifer y cymudwyr sy'n parcio gan wella cyfleoedd parcio i fusnesau a thrigolion. Nid oes unrhyw gynlluniau penodol yn rhan o'r ymgynghoriad penodol hwn, ond darperir cynlluniau yn y dyfodol i'w hystyried. Gellir cyflwyno rhai parthau fel rhan o'r beicffyrdd sy'n cael eu datblygu neu ar wahân i fynd i'r afael â materion lleol neu gynnwys parcio Talu ac Aros.

A fydd yn rhaid i mi dalu am barcio? O ran parthau parcio, cynigir cyflwyno cyfuniad o drwyddedau parcio i breswylwyr yn unig, aros cyfyngedig a thalu ac aros. Bydd cyfle i barcio am ddim, ond bydd hyn am gyfnod cyfyngedig. Mae mwy o wybodaeth am gynlluniau trwyddedau a thalu ac aros ar gael ar wefan y Cyngor.


**Ffigur 3.3.4 – Tudalen 9 o becyn yr ymgynghoriad cychwynnol (mis Mawrth 2023)**

Mae'r pecyn yr ail ymgynghoriad (Canlyniad yr Ymgynghoriad a Diweddariad), yn cyfeirio at yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun. Cyfeirir yn gyntaf at gau Heol y Gwernydd ar dudalen 3 o becyn yr ail ymgynghoriad ac eto ar dudalen 6. Dangosir rhan o dudalen 3 a thudalen 9 er gwybodaeth yn **Ffigur 3.3.5** a **Ffigur 3.3.6** yn y drefn honno.

Gellir gweld bod **Ffigur 3.3.5** yn nodi (yn y testun â llinell oren o'i amgylch): *"Roedd rhai gwrthwynebiadau i gau Heol y Gwernydd (Alder Road) …".*

Mae **Ffigur 3.3.6** yn nodi (hefyd o fewn llinell oren): *"Bydd gwelliannau i gyffordd Heol y Gwernydd yn cynnwys symud ac uwchraddio'r groesfan sebra ddyrchafedig bresennol, ail-leoli / gwella safleoedd bysiau a chau pen gorllewinol Heol y Gwernydd i atal gwrthdaro posib rhwng beics a cherbydau.''*

Cyfeirir yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad at gau Heol y Gwernydd a'r cyfiawnhad dros symud ymlaen â'r nodwedd benodol hon o'r cynllun.



# Llwybr Beicio Parc y Rhath
## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath
### Canfyddiadau Allweddol yr Ymgynghoriad Cychwynnol

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus fis Mawrth 2022 i gael adborth ar y gwelliannau arfaethedig ar Gae Rec y Rhath a Heol Ninian. Cafodd tua 900 o lythyrau eu hanfon at drigolion a busnesau'r ardal ger y cynnig hwn. Derbyniwyd cyfanswm o 257 o ymatebion drwy'r ddolen arolwg i'r ymgynghoriad, yn ogystal â nifer fechan o e-byst a deiseb yn cyfeirio at y rhwystrau culhau ar Heol Tŷ Draw.

Mae'r prif bwyntiau a godwyd o'r ymgynghoriad fel a ganlyn.

Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r mesurau arfaethedig a dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r llwybr beicio drwy'r parc gyda thraean o'r ymatebwyr yn cefnogi'r llwybr beicio ond yn meddwl y dylai fod ar y ffordd fawr.

Roedd llawer yn credu y byddai'r mesurau arfaethedig yn fuddiol ac yn eu hannog naill ai i gerdded neu feicio, neu y bydd yn gwella hygyrchedd i'r rhai sy'n cerdded ac yn seiclo ar hyn o bryd.

Cafodd rhai pryderon eu mynegi o ran cerddwyr a chŵn yn croesi'r llwybr beicio i gyrraedd y parc a cholli gofod gwyrdd.

Roedd rhai gwrthwynebiadau i gau Heol y Gwernydd (Alder Road) a chodwyd rhai pryderon am gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian ac oedi yn y signalau traffig.

Rydym wedi adolygu'r adborth a ddaeth i law a byddwn yn ceisio mynd i'r afael â phryderon perthnasol fel rhan o'r broses ddylunio barhaus.

Os oes sylwadau pellach gennych, hoffem wybod eich barn o ran cam Cae Rec y Rhath. Ceir gwybodaeth ar Sut i ymateb a dolen i'r adroddiad ymgynghori llawn ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ffigur 3.3.5 – Tudalen 3 o becyn yr ail ymgynghoriad (mis Rhagfyr 2023)



# Llwybr Beicio Parc y Rhath
## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath
### Diweddariad ymgynghori - ardal Heol y Gwernydd

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd



Bydd gwelliannau i gyffordd Heol y Gwernydd yn cynnwys symud ac uwchraddio'r groesfan sebra ddyrchafedig bresennol, ail-leoli / gwella safleoedd bysiau a chau pen gorllewinol Heol y Gwernydd i atal gwrthdaro posib rhwng beics a cherbydau.

*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

Ffigur 3.3.6 – Tudalen 9 o becyn yr ail ymgynghoriad (mis Rhagfyr 2023)

***Gwybodaeth ymgynghori yn ymwneud â Heol y Gwernydd: Cwestiynau arolwg***: Ar y sail bod Heol y Gwernydd yn ffordd fynediad leol ddi-ddosbarth, nad oes ganddi eiddo preswyl ar hyd y ffordd, a bod lefel y traffig yn ysgafn o gymharu â Heol Tŷ Draw a Heol Ninian, ni ragwelwyd y byddai cau Heol y Gwernydd yn peri pryder o ran canfyddiad y cyhoedd.

Fel y nodwyd o'r blaen yn yr adroddiad hwn, nid yw hi bob amser yn bosibl rhagweld adborth neu farn y cyhoedd ar nodweddion penodol cynnig. Felly, efallai na fydd cwestiynau yn yr arolwg ar-lein o reidrwydd yn targedu barn unigolyn penodol. Fodd bynnag, roedd blychau testun agored ar gael, a manteisiodd yr ymatebwyr ar y cyfle i ddefnyddio blychau testun yr arolwg ac ysgrifennu'n uniongyrchol at y Cyngor i rannu eu barn am Heol y Gwernydd. Rydym felly'n hyderus bod yr adborth a gafwyd hyd yma yn ymdrin â'r holl broblemau a phryderon allweddol ynghylch y bwriad i gau Heol y Gwernydd ac ynghylch y cynllun yn gyffredinol.

***Y rheswm dros y bwriad i gau'r ffordd a'r manteision o wneud hynny:*** Er mwyn annog pobl i adael eu ceir a defnyddio dulliau trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy, mae'n bwysig annog teithio llesol a dulliau cynaliadwy o deithio ledled Caerdydd. Mae hyn yn cael ei wneud drwy wella troedffyrdd, cyfleusterau croesi, llwybrau beicio, arosfannau bysiau, a llwybrau bysiau, sy'n rhan annatod o'r cynllun hwn; ac mae'r mesurau a gynigir ar gyffordd Heol y Gwernydd yn cyd-fynd â hierarchaeth ffyrdd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu mesurau teithio llesol a mynediad at ddulliau cynaliadwy o deithio yn hytrach na defnyddio ceir.

Mae yna lawer o rwystrau sy'n atal pobl rhag dewis cerdded neu deithio ar feic. Un o'r prif rwystrau yw'r canfyddiad bod ein ffyrdd yn rhy beryglus ac anghyfforddus, oherwydd traffig neu ddiffyg cyfleusterau i groesi ffyrdd prysur. Mae llawer o astudiaethau ac arolygon wedi cael eu cynnal i gefnogi hyn ac maent yn awgrymu y byddai pobl yn beicio neu'n cerdded mwy pe bai'r seilwaith yn well.

Lle bo modd, ar hyd ein llwybrau lle rydym wedi nodi pwyntiau gwrthdaro posibl, byddwn yn ceisio dileu, lleihau neu reoli'r lleoliadau hyn. O ran cyffordd Heol y Gwernydd â Heol Ninian, mae ein cynllun wedi'i ddatblygu i ddileu'r prif bwynt gwrthdaro, sef traffig sy'n troi. Ailymwelir â llawer o'r llwybrau beicio presennol a roddwyd ar waith fel llwybrau dros dro a byddant yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen gyda'r un dull a chan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd; y bwriad cyntaf fydd dileu gwrthdaro ar gyffyrdd os yn bosibl. Enghraifft o hyn yw Teras Cathays lle mae nifer o strydoedd ymyl wedi cael eu cau er mwyn hwyluso llwybr beicio dau gyfeiriad.

Mae'r prif ffactorau canlynol wedi llywio'r gwaith cynllunio a'r penderfyniad i gau Heol y Gwernydd:

- Mae Heol y Gwernydd yn ffordd ddi-ddosbarth, ddibreswyl sy'n gwasanaethu fel mynedfa i'r parciau cyfagos yn hytrach na llwybr trwodd strategol. Oherwydd bod y lonydd traffig sydd ar gael arni yn gul, mae'n aml yn gweithredu fel priffordd un lôn;
- mae cau Heol y Gwernydd i draffig trwodd yn cael gwared ar y risg o wrthdaro rhwng cerbydau a beicwyr a cherddwyr, sy'n cyd-fynd â dyheadau presennol a hirdymor y llwybr beicio ehangach;
- Mae Heol Ninian yn goridor ffordd gymharol brysur (cyfartaledd o 8,500 o gerbydau'r dydd); byddai angen i gerbydau sydd am droi i'r dde i mewn i Heol y Gwernydd aros am fwlch yn y traffig a sicrhau bod y gyffordd yn glir o gerddwyr a beicwyr. Mae mwy o risg o wrthdaro rhwng cerbydau a cherddwyr / beiciau wrth wneud y symudiad hwn, yn ogystal ag ar gyfer traffig sy'n troi i'r chwith i'r gyffordd a thraffig sy'n ymadael â'r gyffordd – y dewis mwyaf diogel yw dileu'r gwrthdaro hwn;

- mae adleoli'r groesfan bresennol yn darparu gwell llinell ddymunol i gerddwyr ar y gyffordd ar draws Heol Ninian;
- mae'r groesfan a adleolir yn cynnig cyfle cysylltu da i feicwyr a cherddwyr i Kelvin Road ac oddi wrthi;
- mae adleoli'r groesfan yn darparu ar gyfer cyfle cyswllt gwell ar gyfer Cam 3 a pharhad y llwybr tua'r gogledd;
- nid yw gyrwyr bob amser yn disgwyl dod ar draws beicwyr sy'n teithio i'r cyfeiriad arall i'r llif traffig cyffredinol;
- mae llawer o symudiadau cerddwyr ar y gyffordd. Rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan feiciau wrth i lwybr newydd gael ei osod. Drwy ailddyrannu gofod ar y ffyrdd gallwn sicrhau bod lle i bob defnyddiwr cyfreithlon;
- mae arolygon a gynhaliwyd ar ben gorllewinol Heol y Gwernydd yn dangos bod lefelau cymharol isel o draffig wrth ystyried pob symudiad troi – felly bydd dadleoliadau traffig yn fach iawn;
- byddai trefniant croesfan atal arall yn symud beicwyr yn nes at fynediad cerddwyr i'r gerddi pleser, a fydd yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr;
- ni fyddai croesfan atal ar y llinell ddymunol ar gyfer cerddwyr na beicwyr, a fydd yn golygu bod rhai defnyddwyr yn dal i groesi ar y gyffordd heb gymorth, i ffwrdd o'r groesfan ddynodedig. Gall hyn arwain at ansicrwydd ynghylch blaenoriaeth, gan arwain at bryderon diogelwch;
- mae angen cynnal a chadw mynediad i'r gerddi pleser trwy'r giât mynediad, felly mae hyn yn lleihau'r cyfle i gael croesfan atal; a
- byddai adleoli'r groesfan ymhellach i'r de yn arwain at golli coed.

Mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod y buddion diogelwch a chynllunio y mae'r cynllun yn eu cynnig yn y lleoliad hwn yn llawer mwy na chyfleustra gyrwyr sydd ond yn defnyddio Heol y Gwernydd fel llwybr trwodd.

***Ymddygiad gwrthgymdeithasol:*** Fel rhan o'r broses ymgynghori, rydym wedi ymgysylltu â'r holl wasanaethau brys a gallwn gadarnhau nad oes unrhyw adborth anffafriol wedi'i ddarparu mewn perthynas â chau Heol y Gwernydd i draffig trwodd cerbydau. Mae hyn hefyd yn cynnwys y broblem o ymddygiad gwrthgymdeithasol, nad yw Heddlu De Cymru yn rhagweld unrhyw broblemau yn ei gylch.

Nid yw'n glir pam y byddai'n dod yn lleoliad ymgynnull gwrthgymdeithasol, ond mae'r pryderon wedi'u nodi a byddwn yn cynnal gwaith monitro i ystyried pa fesurau y gellid eu cyflwyno pe bai'n digwydd.

Pe bai problemau'n codi o ganlyniad i'r cau, gallwn ystyried goleuadau stryd ychwanegol, clirio llystyfiant a rheoli parcio, megis:

- Parcio talu ac aros, fel y gall ymwelwyr arhosiad byr â'r parc barcio am ddim, ond byddai angen i bobl sy'n aros am amser hir dalu. Byddai hyn yn cael gwared ar barcio gan gymudwyr a'r tebygolrwydd y byddai pobl yn gwersylla ar y ffordd yn y tymor hir, yn ogystal â chynnig trosiant rheolaidd o fannau parcio i ymwelwyr â'r parc;
- Gorchmynion rheoleiddio traffig a mesurau gorfodi sy'n targedu cartrefi modur, fel mai dim ond yn ystod rhai adegau o'r dydd y gallant barcio ac nid dros nos; a
- Gorchmynion rheoleiddio traffig a mesurau gorfodi i ddileu mynediad i gerbydau yn llwyr yn ystod y nos.


***Traffig wedi'i ddadleoli a symudiadau troi anodd i gyffordd Heol Pen-y-lan / Heol Kimberley:*** O'r adborth a gafwyd ynghylch y bwriad i gau Heol y Gwernydd a'r gwaharddiad ar symudiadau troi penodol ar gyffordd Heol Ninian / Heol Pen-y-lan / Heol Wellfield / Heol Marlborough, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu'r potensial i ddwyn Cynllun Rhaglen y Dyfodol ymlaen yng nghyffordd Heol Tŷ Draw / Heol Kimberley.

Byddai'r cynllun hwn wedi'i anelu'n bennaf at wella symudiadau cerddwyr a beicwyr ar y gyffordd, yn ogystal â chynorthwyo traffig sy'n mynd i mewn ac allan o Heol Tŷ Draw a Heol Kimberley yn ystod oriau brig ac allfrig. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cynnig y cyfle i ehangu cysylltiadau teithio llesol ar gyfer yr ardal.


***Traffig wedi'i ddadleoli i Gylchfan y Dderwen Deg:*** Ar hyn o bryd rydym yn datblygu opsiynau ar gyfer Cylchfan y Dderwen Deg sy'n rhan o Gam 3 y llwybr. Bydd yr opsiynau sy'n cael eu datblygu yn ystyried gwaith modelu ar draws y rhwydwaith. Byddwn yn ymgynghori ar y cynlluniau hyn yn y dyfodol ar ôl eu datblygu.

***Anghyfleustra a chynnydd mewn traffig a llygredd:*** Fel yr adroddwyd yn flaenorol yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nododd arolygon traffig mai nifer gymharol fach o gerbydau'n troi a gafodd eu cyfrif ar gyffordd Heol Ninian / Heol y Gwernydd ac ar gyffordd Heol y Gwernydd / Heol Tŷ Draw ar 6 a 7 Gorffennaf 2022 yn y drefn honno.

Dangosir copi o ddata cryno'r arolwg yn **Ffigur 3.3.6** a **Ffigur 3.3.7** o'r cyfrif traffig a cherddwyr yn y drefn honno.




**Ffigur 3.3.6 – Data cyfrif yr arolwg traffig (cryno) 6 / 7 Gorffennaf 2022**




| | A | B | C | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AM (8-9) | 7 | 56 | 3 | 78 | 85 | 7 |
| PM (4.30-5.30) | 1 | 103 | 6 | 71 | 96 | 1 |

**Ffigur 3.3.7 – Data cyfrif yr arolwg cerddwyr (cryno) 6 / 7 Gorffennaf 2022**

Mae asesiad o'r gwaith modelu traffig yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, ar lefel rhwydwaith, er mwyn llywio cynigion y llwybr ehangach i gymhwyso mesurau lliniaru lle bo angen a bydd gwaith modelu lleol yn cael ei wneud yn ôl yr angen. Mae gwaith modelu hefyd yn ymarfer parhaus sy'n cyd-fynd â monitro. Bydd effaith Heol y Gwernydd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith astudio ehangach, ond ni fydd yn newid y cynllun arfaethedig yn y lleoliad hwn. Mae hyn oherwydd y niferoedd isel o draffig a mesurau lliniaru mewn mannau eraill, er enghraifft gwelliannau i gyffordd Tŷ Draw / Heol Kimberley a gwelliannau yng nghyffordd Heol Ninian / Heol Wellfield.

Ar gyfer cau Heol y Gwernydd, mae llwybrau amgen ar gael o bellter tebyg i lwybrau presennol (ar gyfer y teithiau mwyaf rhesymegol drwy'r ardal). Ar gyfer teithiau rhwng yr ardaloedd preswyl y naill ochr i'r Cae Rec, gall y pellter teithio fod yn hwy, ond fe allant, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau, fod yn fwy addas ar gyfer teithio llesol.

Ar gyfer teithiau trwodd lle na fydd llawer o newid o ran pellter, mae'n annhebygol y bydd unrhyw wahaniaeth o ran allyriadau cerbydau, ond ar gyfer rhai teithiau lleol, lle gallai fod angen ymestyn pellter y daith, byddai allyriadau cerbydau'n cynyddu oherwydd yr amser ychwanegol a gymerir i deithio. Drwy newid modd a darparu dewis arall yn lle defnyddio ceir, bydd unrhyw effaith negyddol yn cael ei gwrthbwyso gan y teithiau mwy cynaliadwy a wneir.

***Mynediad i gerbydau brys:*** Mae Heol y Gwernydd yn ffordd ddi-ddosbarth, ddibreswyl sy'n gwasanaethu fel mynedfa i'r parciau cyfagos yn hytrach na llwybr trwodd strategol. Oherwydd bod y lonydd traffig cul sydd ar gael arni, mae'n aml yn gweithredu fel priffordd un lôn. Ar y sail bod Heol y Gwernydd yn ffordd gul, y gellir ei chyfyngu i lif traffig un ffordd, gyda defnyddwyr yn ceisio parcio neu gael mynediad i'r gerddi a'r caeau chwarae, mae'n annhebygol o gael ei defnyddio fel prif lwybr ymateb brys. Hefyd dim ond tua 140 metr o hyd yw Heol y Gwernydd, a byddai'n dal yn bosibl cael mynediad iddi ar un pen.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, rydym wedi ymgysylltu â'r holl wasanaethau brys ac ni ddarparwyd unrhyw adborth negyddol o ran cau Heol y Gwernydd i draffig trwodd cerbydau.

Oherwydd yr ymgynghorwyd â'r holl wasanaethau brys ac y byddent yn ymwybodol o'r mynediad cyfyngedig pe bai'n cael ei weithredu, byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o'u dyletswyddau o ddydd i ddydd.

***Cau Heol y Gwernydd yn llwyr:*** Gellid ystyried cau Heol y Gwernydd yn llwyr yn ddiweddarach, ond mae hynny y tu allan i brif gwmpas y cynllun hwn.

## 3.4. Ymateb i ddeisebau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y deisebau a gyflwynwyd fel rhan o broses yr ail ymgynghoriad.

### Cefndir

Mae'r Cyngor yn croesawu deisebau ac rydym yn cydnabod bod deisebau yn un o'r ffyrdd y gall pobl roi gwybod i ni am eu pryderon. Mae deisebau yn ffordd i unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Diben deisebau yw gofyn am newid neu godi mater ar bwnc sydd o bryder cyhoeddus. Mae'r materion a godwyd yn ei gwneud yn bosib i'r Cyngor a'r Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

## Deiseb Heol y Gwernydd (Deiseb 1)


Mae deiseb wedi'i chyflwyno fel cwyn ynghylch y ffordd y mae'r ymgynghoriad ar y gwelliannau i Gae Rec Parc y Rhath wedi cael ei gynnal. Mae hefyd yn wrthwynebiad i gau Heol y Gwernydd.

O'r ddeiseb a ailgyflwynwyd ar 16 Mawrth 2023, daeth cyfanswm o 523 o lofnodion i law. O'r llofnodion hyn, roedd 422 yn electronig a 101 mewn llawysgrifen. Rhoddwyd cyfrif am 39 o'r llofnodion â llaw eisoes ar y llofnodion electronig, felly mae'r rhain wedi'u diystyru. Felly mae cyfanswm y llofnodion a dderbyniwyd yn cyfateb i 484 o lofnodion.

O'r 484 o lofnodion, mae 181 ohonynt gan bobl sy'n byw y tu allan i Gaerdydd ac mae tri yn byw y tu allan i'r DU. O'r 300 o lofnodion sy'n weddill, mae 182 yn byw o fewn ardal cod post CF23 (yn agos i Heol y Gwernydd neu ffyrdd cyfagos). Mae'r 118 arall yn byw o fewn ffin Caerdydd.

Mae **Siart 6** yn darparu cynrychiolaeth weledol o'r ardaloedd y mae'r bobl a lofnododd y ddeiseb yn byw ynddynt. Mae'n rhesymol tybio y byddai gan bobl sy'n byw y tu allan i'r ddinas neu mewn ardaloedd â chodau post cyfagos fwy o ddewis o ran llwybrau dargyfeiriol.

***Siart 6 – Yr ardaloedd y mae'r bobl a lofnododd y ddeiseb yn byw ynddynt:***




***Ymateb i bwyntiau penodol*** – Rhestrir y pwyntiau a godwyd ar gyfer Deiseb 1 isod ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt.

***Pwynt 1:*** *Nid oedd dogfen yr ymgynghoriad cychwynnol yn sôn yn benodol am gau Heol y Gwernydd ar y gyffordd â Heol Ninian, roedd y cynllun yn fach ac yn brin o fanylion.*

**Ymateb:** Roedd yr hysbysiad safle cychwynnol yn rhestru cau'r ffordd ac roedd tudalen 6 y pecyn ymgynghori yn nodi: *"ail-leoli / gwella safleoedd bysiau a chau pen gorllewinol Heol y Gwernydd."*
Ar dudalen 9 y pecyn ymgynghori (Cwestiynau Cyffredin) nodwyd: *"A allaf gael mynediad i Heol y Gwernydd o hyd? Gellir, ond er mwyn gwneud mynediad i'r llwybr beicio yn fwy diogel, bydd Heol y Gwernydd yn cael ei chau wrth y gyffordd â Heol Ninian a bydd y groesfan sebra yn cael ei hadleoli. Byddai cerbydau'n mynd i Heol y Gwernydd drwy deithio ar hyd Heol Tŷ Draw. Bydd man troi yn cael ei ddarparu."*

***Pwynt 2:*** *Yn llythyr yr ail ymgynghoriad a gafwyd ddiwedd mis Rhagfyr, dim ond y pwyntiau isod a restrwyd yn y cynllun:- Lledu'r llwybr troed o fewn cae chwarae Cae Rec y Rhath; Llwybr beicio trwy gae chwarae Cae Rec y Rhath; Arwyneb a rennir ar Pen-y-Wain Place; Gwella'r mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw; a Newidiadau i'r mynediad i faes parcio'r Ganolfan Gymunedol. Er y bydd llawer o bobl yn ystyried bod y cynigion uchod yn bethau cadarnhaol, nid oes unrhyw sôn am gau Heol y Gwernydd i draffig trwodd. Teimlwn fod ymgynghoriad y cyngor wedi bod yn un dichellgar ac ofer, gan lywio'r ffocws yn fwriadol oddi wrth y bwriad i gau'r ffordd.*

**Ymateb:** Mae llawer o nodweddion i'r cynnig, a dim ond un ohonynt yw'r cau. Oherwydd y gofod cyfyngedig ar gynlluniau lefel uchel / hysbysiadau safle, ni allwn restru'r holl nodweddion, ond cafodd gwybodaeth ei darparu yn y pecyn ymgynghori cyntaf a darperir ymateb cynhwysfawr yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cychwynnol. Cyfeirir ym mhecyn yr ail ymgynghoriad at yr adroddiad ar yr ymgynghoriad a sut i gael gafael arno. Roedd pecyn yr ail ymgynghoriad yn ehangu'r wybodaeth am nodweddion ychwanegol sy'n cael eu hychwanegu, neu'n darparu mwy o wybodaeth, ond mae'n dal i grybwyll y cau (ar dudalennau 3 a 9). Dylid nodi mai is-deitl pecyn yr ail ymgynghoriad yw 'Canlyniad yr Ymgynghoriad a Diweddariad'.

***Pwynt 3:*** *Fel trigolion lleol credwn y bydd cau Heol y Gwernydd yn cael effaith negyddol iawn ar y gymuned leol. Rydym yn gwrthwynebu cau Heol y Gwernydd yn bennaf oherwydd y bydd yn arwain at fwy o dagfeydd traffig ar y cyffyrdd cyfagos ar bob pen i Heol Tŷ Draw a Heol Ninian. Bydd trigolion Heol Tŷ Draw a'r holl strydoedd ymyl gerllaw, y mae llawer ohonynt yn defnyddio Heol y Gwernydd sawl gwaith y dydd yn profi anghyfleustra ac yn creu mwy o dagfeydd a thraffig sy'n aros yn ei unfan ar y naill ben a'r llall i Heol Tŷ Draw, gan gynyddu llygredd y tu allan i gartrefi pobl.*

**Ymateb:** Ymdriniwyd â'r pwynt hwn fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. Mae'r ymateb (ar dudalen 7 o'r adroddiad) yn nodi: *"Mae'r ddwy gyffordd ar y naill ben a'r llall i Heol y Gwernydd yn gweithredu'n dda o fewn eu galluoedd damcaniaethol. Dangosodd arolygon traffig diweddar ar y cyffyrdd hyn fod llif traffig cymharol isel ar hyd Heol y Gwernydd, ac mae Heol Ninian a Heol y Gwernydd yn gweithredu o fewn eu capasiti cyswllt damcaniaethol. Wrth ystyried yr opsiynau ailgyfeirio llwybrau posib sydd ar gael, nid yw'r traffig a ail-ddosberthir sy'n defnyddio Heol y Gwernydd fel ffordd o dorri drwodd yn ddigon sylweddol i gael effaith negyddol ar y rhwydwaith priffyrdd pe bai Heol y Gwernydd ar gau i draffig trwodd. Mae'r sylwadau a godwyd wedi'u nodi a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith modelu ehangach a fydd yn cael ei wneud yn y dyfodol".*

***Pwynt 4:*** *Bydd traffig a fyddai wedi torri drwy Heol y Gwernydd yn flaenorol yn cael ei orfodi i gymryd llwybr hirach gan ychwanegu at ei ôl troed carbon, ac yn sicr ni fydd yn lleihau llygredd.*

**Ymateb:** Yn unol â'r ymateb i Bwynt 3, mae llawer o opsiynau ailgyfeirio posibl ar gael gan ddibynnu ar darddiad a chyrchfan y gyrrwr. Nid yw'r traffig a ail-ddosberthir sy'n defnyddio Heol y Gwernydd fel ffordd o dorri drwodd yn ddigon sylweddol i gael effaith negyddol ar y rhwydwaith priffyrdd pe bai Heol y Gwernydd ar gau i draffig trwodd. I rai defnyddwyr, ni fydd llawer o newid wrth ystyried hyd Heol y Gwernydd.
Mae'n bwysig gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd cyn gynted â phosibl. Er mwyn annog pobl i adael eu ceir a defnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, mae'n bwysig annog teithio llesol a theithio cynaliadwy ledled Caerdydd. Mae hyn yn cael ei wneud drwy wella

llwybrau beicio, arosfannau bysiau, a llwybrau bysiau, sy'n rhan annatod o'r cynllun hwn. Bydd y cau hwn yn gwneud y rhan benodol hon o'r llwybr arfaethedig yn fwy diogel i feicwyr.

***Pwynt 5:*** *Er y bu rhywfaint o waith monitro symudiadau cerbydau yn ystod yr wythnosau diwethaf, gall traffig fod yn sylweddol uwch yn ystod misoedd yr haf wrth i bobl ymweld â'r parciau a'r mannau gwyrdd.*

**Ymateb:** Cynhaliwyd yr arolygon y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb i Bwynt 3 ym mis Gorffennaf 2022. Cynhaliwyd arolygon mwy diweddar ym mis Tachwedd 2022 a gwanwyn 2023.

***Pwynt 6:*** *Nid ydym wedi gweld cwestiwn penodol ynglŷn â chau Heol y Gwernydd yn y naill ymgynghoriad na'r llall a chredwn fod geiriad yr ohebiaeth wedi ceisio dibrisio elfen cau ffordd y cynllun, a hynny'n fwriadol.*

**Ymateb:** Gweler yr ymateb i bwyntiau 1 a 2.

Darperir rhagor o wybodaeth mewn ymateb i adborth a godwyd ynghylch y bwriad i gau Heol y Gwernydd yn **adran 3.3** o'r adroddiad hwn.

### Deiseb (Deiseb 2) Heol Ninian Road / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Wellfield

Mae deiseb wedi'i chyflwyno i'r Cyngor ailystyried yr angen i wahardd troi i'r dde a newidiadau canlyniadol i'r cyfnodau ar gyffordd Heol Ninian, Heol Pen-y-lan, Heol Marlborough a Heol Wellfield.

O'r ddeiseb a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2023, cafwyd cyfanswm o 173 o lofnodion. O'r llofnodion hyn, mae pob un wedi'i ysgrifennu â llaw.

O'r 173 o lofnodion llaw, llofnodwyd 160 gan bobl sy'n byw o fewn ardal cod post CF23. Llofnodwyd y 13 llofnod arall gan bobl a oedd yn byw o fewn ffin Caerdydd, ond y tu allan i ardal cod post CF23.

**Ymateb:** rhagwelir y byddai unrhyw oedi o ganlyniad i beidio â gwahardd y symudiadau troi yn golygu y byddai'r traffig ar y gyffordd yn fwy na'i chapasiti. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y byddai traffig yn cael ei ddadleoli, o bosibl ar nifer o ffyrdd ymyl. Mae gwybodaeth am y cyfiawnhad a'r gwaith modelu a wnaed hyd yma ar gael yn adran 3.2. Mae'n rhesymol tybio y byddai gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd cod post cyfagos fwy o ddewis o ran llwybrau dargyfeiriol.

## 4. Diweddariadau i'r cynlluniau

Ers yr ail ymgynghoriad, bu nifer o newidiadau cynllunio allweddol, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi isod. Darperir y darluniadau diweddaraf y cynllun yn **Atodiad C**.

- **Llwybr beicio trwy'r parc** – mae aliniad y llwybr wedi'i symud ymhellach i'r cae chwarae er mwyn diogelu parth gwreiddiau'r coed ymhellach. Caiff glaswellt ei blannu dros y llwybr troed presennol.
- **Goleuadau stryd –** bydd y rhain ar lefel uchel ar hyd y llwybr beicio. Mae hyn yn dilyn ymchwiliad amgylcheddol.
- **Lledu llwybr troed** – mae aliniad y llwybr wedi'i symud ymhellach i'r cae chwarae er mwyn diogelu parth gwreiddiau'r coed ymhellach. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwaith sy'n cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyd Nant Lleucu.
- **Cyfeiriadedd y caeau** chwaraeon – cafodd y pedwar cae chwarae eu hail-leoli i wneud lle i'r newidiadau uchod. Yn dilyn cynlluniau draenio cynaliadwy i ddarparu ar gyfer y llwybr beicio ac i fynd i'r afael â phroblemau draenio o fewn maes parcio'r Ganolfan Gymunedol, bydd tri cae yn cael eu cadw. Mae adborth a gafwyd gan dîm archebu parciau'r Cyngor wedi cadarnhau mai dim ond tri cae a ddefnyddir fel arfer. Bydd y rhain yn cael eu marcio cyn y tymor chwaraeon nesaf.
- **Cyffordd Heol y Gwernydd / Heol Ninian** – mae'r cynllun wedi'i addasu i wella aliniad y llwybr beicio drwy'r ardal amddiffyn gwreiddiau coed. Bydd y cynllun hwn yn darparu ar gyfer sicrhau mynediad i'r gerddi pleser ar gyfer cynnal a chadw'r parc.
- **Safle bws ymwthiol (ochr y parc) ger cyffordd Pen-y-Wain Place –** bydd yn cael ei gadw yn ei drefniant presennol er mwyn darparu ar gyfer arhosfan amseru bysiau, gan ganiatáu i draffig basio bws llonydd. Mae hyn er mwyn darparu ar gyfer cynigion Cam 3 sy'n cael eu datblygu.
- **Ardal maes parcio'r Ganolfan Gymunedol** – wedi'i ddiweddaru i gynnwys symudiadau cerddwyr. Bydd cyfanswm o dair cilfan i ddefnyddwyr anabl, 46 o fannau cyffredinol, man parcio i feiciau modur a dau fan parcio i gerbydau trydan (52 o leoedd i gyd gan gynnwys man parcio i feiciau modur).
- **Teledu cylch cyfyng** – cynigir gosod camera teledu cylch cyfyng traffig newydd ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian. Mae camera teledu cylch cyfyng newydd hefyd yn cael ei osod ar gyffordd Heol Llanedern / Heol Cyncoed. Er mwyn gwneud lle i osod y camerâu hyn, yn ogystal â gwella cysylltiadau cyfathrebu â'r signalau traffig ar y llwybr hwn, bydd cebl ffeibr optig newydd yn cael ei osod o Heol Albany i Heol Llanedern drwy Heol Wellfield a Heol Pen-y-lan. Gellir gwneud y gwaith hwn fel rhan o'r cynnig presennol neu fel rhan o gynigion eraill sy'n cael eu gwneud yn yr ardal.

## 5. Crynodeb o'r ymgynghoriad ac argymhelliad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r prif adborth a godwyd o'r ymgynghoriad a'r casgliad.

Cynhaliwyd ail ymgynghoriad, o'r enw 'Canlyniad yr Ymgynghoriad a Diweddariad', rhwng 16 Rhagfyr 2022 a 15 Ionawr 2023 i geisio barn pobl am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion, ynghyd â chyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad a oedd ar gael yr un pryd â'r ail ymgynghoriad.

Mae'r ddau ymgynghoriad yn dilyn y broses ymgynghori safonol ar gyfer cynlluniau prosiectau trafnidiaeth. Dylid nodi nad yw bob amser yn bosibl rhagweld adborth gan y cyhoedd, na barn ar nodweddion penodol cynnig, felly roedd blychau testun agored ar gael fel rhan o'r arolwg ar-lein, ac mae gan ymatebwyr yr opsiwn i ysgrifennu'n uniongyrchol at y Cyngor. Rydym felly'n hyderus bod yr adborth a gafwyd hyd yma yn cwmpasu'r holl faterion allweddol sy'n debygol o gael eu codi.

Gellir crynhoi'r adborth a gafwyd fel a ganlyn:

- *Sylwadau am y broses ymgysylltu ac ymgynghori a'i hamseriad;*
- *Sylwadau am deithio llesol ac aer glân;*
- *Sylwadau ac arsylwadau ar ymddygiad beicwyr;*
- *Pryderon am y llwybr beicio trwy'r cae chwarae a'r maes parcio;*
- *Pryderon ynghylch coed, y llwybr dewisol a defnyddwyr eraill y parc;*
- *Pryderon ynghylch cynllun maes parcio'r Ganolfan Gymunedol;*
- *Sylwadau ynghylch parcio yn gyffredinol o fewn yr ardal;*
- *Sylwadau am Pen-y-Wain Place a Heol Ninian;*
- *Sylwadau am gael gwared â'r mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw ;*
- *Sylwadau ac awgrymiadau am Heol Tŷ Draw fel llwybr beicio;*
- *Sylwadau am y gwelliannau i'r gyffordd â signalau;*
- *Sylwadau ynghylch y gwaharddiad ar symudiadau troi ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan a'r effaith ehangach; a*
- *Pryderon ac awgrymiadau ynghylch cau Heol y Gwernydd a'r wybodaeth am y cau yn y pecyn ymgynghori.*

Cyflwynwyd dwy ddeiseb hefyd:

**Deiseb 1 –** Cyflwynwyd ar 16 Mawrth 2023, ac roedd yn cynnwys 484 o lofnodion. O'r llofnodion hyn, mae 181 gan bobl sy'n byw y tu allan i Gaerdydd ac mae tri yn byw y tu allan i'r DU. Mae 182 yn byw o fewn ardal cod post CF23 (yn agos at Heol y Gwernydd neu ffyrdd cyfagos). Mae'n rhesymol tybio y byddai gan y bobl hynny sy'n byw y tu allan i'r ddinas neu mewn ardaloedd cod post cyfagos fwy o ddewis o ran llwybrau dargyfeiriol.

Gellir crynhoi'r pwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- *Teimlwyd nad oedd y ddogfen ymgynghori gychwynnol yn sôn yn benodol am gau Heol y Gwernydd;*
- *Teimlwyd nad oedd llythyr yr ail ymgynghoriad yn cynnwys cau Heol y Gwernydd;*
- *Teimlwyd y byddai cau Heol y Gwernydd yn arwain at fwy o dagfeydd traffig / llygredd ar y cyffyrdd ar bob pen i Heol Tŷ Draw a Heol Ninian.*

- *Teimlwyd y byddai traffig sy'n cael ei ddargyfeirio yn cael ei orfodi i gymryd llwybr hirach gan ychwanegu at ei ôl troed carbon ac yn sicr ni fyddai'n lleihau llygredd.*
- *Teimlwyd y gall symudiadau cerbydau fod yn sylweddol uwch yn ystod misoedd yr haf wrth i bobl ymweld â'r parciau a'r mannau gwyrdd.*
- *Teimlwyd nad oedd unrhyw gwestiwn penodol ynglŷn â chau Heol y Gwernydd yn y naill ymgynghoriad na'r llall a bod geiriad yr ohebiaeth wedi ceisio bychanu elfen cau ffordd y cynllun, a hynny'n fwriadol.*

**Deiseb 2** – cafodd ei chyflwyno ar 20 Mawrth 2023 ac roedd yn cynnwys 173 o lofnodion, yr oedd 160 ohonynt gan bobl a oedd yn byw o fewn ardal cod post CF23.

Gellir crynhoi'r pwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- *Teimlwyd bod angen ailystyried yr angen i wahardd troi i'r dde a'r newidiadau dilynol i'r cyfnodau ar gyffordd Heol Ninian, Heol Pen-y-lan, Heol Marlborough a Heol Wellfield.*
- *Teimlwyd y byddai gwahardd symudiadau troi yn achosi mwy o draffig i ddefnyddio Kimberley Road, Westville Road a Sandringham Road a ffyrdd cyfagos.*

Yn gyffredinol, mae ymateb wedi'i ddarparu i'r holl bwyntiau ac adborth a godwyd o'r arolwg ar-lein, o'r ohebiaeth a ddaeth i law a'r deisebau a gyflwynwyd, sydd naill ai'n mynd i'r afael â'r materion neu'n eu hateb (gweler **adran 3** o'r adroddiad hwn).

O'r adroddiad hwn, gellir dod i'r casgliad mai'r ddau brif fater oedd:

- cau Heol y Gwernydd i draffig trwodd; a
- gwahardd symudiadau troi ar gyffordd Heol Ninian / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Wellfield.

## Cau Heol y Gwernydd i draffig trwodd cerbydau:

Mae prif bwyntiau'r adborth a godwyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Y broses ymgynghori a'r wybodaeth a ddarparwyd** – Mae ***adran 3*** *yr adroddiad hwn yn dangos bod gwybodaeth am gau Heol y Gwernydd wedi'i darparu yn yr ymgynghoriad cychwynnol, fel rhan o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ac yn yr ail ymgynghoriad.*
- **Ymddygiad gwrthgymdeithasol** – *Bydd monitro ôl-weithredu yn cael ei wneud i ystyried a oes angen mesurau.*
- **Dadleoli traffig yn arwain at anghyfleustra i rai trigolion, llygredd aer a thagfeydd traffig** – *yn ystod yr arolygon traffig a gynhaliwyd, nododd cyfrifon troi cymharol isel. Wrth ddosbarthu'r traffig ar draws y rhwydwaith, mae'n debygol y bydd y pwyntiau hyn yn mynd yn ddibwys drwy fesurau lliniaru sy'n rhan o'r gwelliannau i'r llwybr ehangach, newid moddol a gwrthbwyso'r teithiau hyn gyda theithiau mwy cynaliadwy.*
- **Dylid ystyried cynllun amgen** – *Mae adran 3 yr adroddiad hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y rhesymeg a'r cyfiawnhad dros gau Heol y Gwernydd. Mae hyn yn cynnwys y ffaith y byddai trefniant croesfan atal arall yn symud beicwyr yn nes at fynediad cerddwyr i'r gerddi pleser, yn ymyrryd â mynediad timau cynnal a chadw i'r gerddi pleser trwy'r giât mynediad, neu byddai angen cael gwared ar goed. Mae cau Heol y Gwernydd i draffig trwodd yn cael gwared ar y risg o wrthdaro rhwng cerbydau*

*a cherddwyr a beicwyr er mwyn cyd-fynd â dyheadau presennol a hirdymor y llwybr beicio ar gyffordd Heol y Gwernydd.*

Mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod y buddion diogelwch y mae'r cynllun yn eu cynnig yn y lleoliad hwn yn llawer mwy na chyfleustra gyrwyr sydd ond yn defnyddio Heol y Gwernydd fel llwybr trwodd.

## Gwahardd symudiadau troi ar gyffordd Heol Ninian / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Wellfield

Y prif faterion a godwyd fel rhan o'r adborth sy'n gysylltiedig â gwahardd symudiadau troi ar gyffordd Heol Ninian / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Wellfield yw'r traffig a ddadleolir.

Mae adran 3 o'r adroddiad hwn yn rhoi'r rhesymeg y tu ôl i'r gwaharddiad arfaethedig ar symudiadau troi sydd â'r nod o leihau'r oedi i draffig ar y gyffordd o ganlyniad i gyflwyno cyfnod traffig ychwanegol. Mae'r adroddiad yn dangos, wrth ystyried y data arolwg traffig diweddaraf, fod y symudiadau troi dan sylw yn isel iawn yn ystod y cyfnodau brig. Yn ogystal â hyn, byddai cyrchfannau traffig wedi'i ddadleoli hefyd yn amrywio, felly mae'n debygol y bydd unrhyw draffig sy'n cael ei ddadleoli yn ystod cyfnodau brig y bore neu'r prynhawn sy'n dargyfeirio i ffyrdd eraill yn ddibwys ac yn debygol o fod ymhell o fewn capasiti'r ffordd.

Rydym eisoes wedi cynnal arolygon fel rhan o ymarfer arolwg traffig diweddar, ond byddwn yn cynnal arolygon ychwanegol pellach o fewn yr ystâd i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd, i benderfynu pa un a oes angen unrhyw fesurau pellach fel rhan o'r gwaith monitro ôl-weithredu. Bydd yr arolygon hyn hefyd yn cael eu defnyddio fel rhan o ragor o waith archwilio opsiynau ar gyfer y llwybr er mwyn ei gysylltu â chyrchfannau a llwybrau beicio eraill.

Byddai unrhyw oedi o ganlyniad i beidio â gwahardd symudiadau troi yn arwain at leihad yng nghapasiti'r cyffordd a byddai traffig yn symud i nifer o ffyrdd ymyl. Yn ogystal â chyffordd Heol Wellfield, rydym yn bwriadu gwneud gwelliannau i gyffordd Heol Albany / Heol Wellfield fel rhan o ddatblygiad llwybr ehangach. Fel rhan o'r broses hon o asesu gwaith modelu'r gyffordd hwn, rydym yn bwriadu penderfynu a ellid caniatáu symudiad troad i'r dde o Stryd Bangor. Byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i drigolion Stryd Bangor neu ymwelwyr â hi giwio tua'r gogledd ar Heol Wellfield er mwyn ail-ymuno â'r rhwydwaith priffyrdd a byddai'n lleihau'r galw ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian. Byddwn hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd i wella cysylltiadau teithio llesol o fewn yr ardal sy'n canolbwyntio ar wneud gwahanol strydoedd yn fwy ffafriol i gerdded a beicio ar eu hyd.

### Argymhelliad

Mae'r ymgynghoriad cychwynnol a'r ail ymgynghoriad wedi cael eu cynnal ar gam ffurfiannol, lle teimlir bod digon o wybodaeth a digon o amser wedi'i ganiatáu i'w gwneud yn bosibl ystyried ac ymateb. Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law wedi cael eu hystyried yn gydwybodol.

Mewn cysylltiad â'r holl adborth, gohebiaeth a deisebau a gyflwynwyd fel rhan o'r ail ymgynghoriad hwn, mae rhesymau rhesymegol a rhesymol wedi'u darparu mewn ymateb i'r cyfiawnhad a'r rhesymeg y tu ôl i wahanol nodweddion dylunio'r cynllun sy'n cael ei ddatblygu.

O'r wybodaeth gyfredol a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad penodol hwn, ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun.

Mewn perthynas ag unrhyw newidiadau dilynol o ganlyniad i fodelu'r rhwydwaith, byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y camau ar gyfer mannau cyfagos o'r llwybr ehangach, neu'n cael eu cynnwys yn y cynllun manwl a fydd ar gael i'w weld ar-lein pan fydd y cynllun yn symud ymlaen i'r cam adeiladu.

Yn wyneb yr uchod, argymhellir bod y cynnig presennol yn mynd rhagddo yn ei drefniant presennol.

## 6. Y camau nesaf

Mae’r adran hon o’r adroddiad yn rhoi crynodeb o’r camau nesaf sy’n gysylltiedig â’r cynnig hwn a’r cynllun ehangach yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

- **Y cynllun manwl –** yn parhau i gael ei ddatblygu ar sail cynigion y cynllun presennol;
- **Gwaith modelu ac asesu ar lefel rhwydwaith** – yn cael ei gynnal a bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r broses o archwilio opsiynau ar y cynigion ehangach;
- **Gorchmynion rheoleiddio traffig** – byddant yn cael eu prosesu a'u gweithredu yn briodol;
- **Ymgynghoriad ar y llwybr ehangach** – caiff ymgynghoriad arall ei gynnal ar y llwybr ehangach ac ar gamau penodol o’r llwybr; ac
- **Ymgynghoriad ar barcio parthol** – caiff ymgynghoriad ei gynnal hefyd hefyd lle bo angen er mwyn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau parcio yn yr ardal. Byddai hyn yn cynnwys parcio parthol, neu unrhyw orchmynion rheoleiddio traffig sy'n gysylltiedig â'r cam presennol fel rhan o'r broses gorchymyn rheoleiddio traffig gyfreithiol ar wahân.

# 7. Atodiadau

# Atodiad A

Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd wedi'u coladu

***Sylwadau am y broses ymgysylltu ac ymgynghori …***

***Crynodeb o'r sylwadau***

*"Mae canllawiau arferion gorau Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir iawn bod ymgysylltu yn golygu llawer iawn mwy na chynnal "ymgynghoriad" ac mae'n gwbl amlwg na fu unrhyw ymgysylltu gwirioneddol â'r gymuned o wahanol ddefnyddwyr Cae Rec y Rhath a'r ardal o amgylch y Ganolfan Gymunedol."*

*"Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu'n bennaf at ymatebion ar-lein neu e-bost ac felly mae'n eithrio nifer fawr o bobl leol a fydd yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y cynllun hwn ond nad ydynt wedi cael cynnig unrhyw ffordd o gael gwybod amdano nac i'w lleisiau gael eu clywed. Rydych yn ceisio esgusodi'r methiant hwn drwy ddweud nad oes modd gwybod pwy sy'n ei ddefnyddio ond fel y nodais y llynedd bydd gan y Cyngor gofnodion o'r timau chwaraeon sy'n archebu'r caeau sydd wedi'u marcio a thrwy Better GLL, a byddai staff llyfrgell y Cyngor yn gallu sianelu gwybodaeth i grwpiau a thiwtoriaid perthnasol sy'n archebu'r ganolfan."*

*"Fel cyfrannwr gweithredol i'r ymgynghoriad blaenorol byddwn wedi disgwyl cael gwybod am yr wybodaeth newydd hon fel mater o gwrteisi syml … Rwy'n credu, pan fo preswylwyr wedi cymryd rhan ac wedi cyfrannu o'r blaen, y dylent gael eu cynnwys yn awtomatig mewn diweddariadau lle gwahoddir / y mae angen ymateb pellach."*

*"Mae'r Cyngor yn dewis anwybyddu barn ehangach y gymuned ac ni fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw ddeialog gyda'r cyhoedd."*

*"Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal dros gyfnod Nadolig 2022, gyda'r post i drigolion lleol wedi'i oedi oherwydd effaith post y Nadolig ac anghydfod diwydiannol y Post Brenhinol. Ni chafodd llawer o drigolion lleol eu post tan ar ôl terfyn amser y cyfnod ymgynghori."*

*"Mae dod o hyd i'r ddogfen ar wefan y Cyngor yn anodd ac yn amhosib i lawer. Nid yw'n ymddangos o dan 'Ymgyngoriadau Llwybrau Beicio' ond o dan 'Ymgyngoriadau Byw' fel 'Ail Ymgynghoriad ar Welliannau i Gae Rec y Rhath', heb unrhyw gyfeiriad at lwybrau beicio. Nid yw'r ddogfen wedi'i dyddio ac nid oes ganddi unrhyw gyfeiriadau at dudalennau na pharagraffau."*

*"Dywed y Cyngor fod llythyrau wedi cael eu hanfon at drigolion yn yr ardal ger y cynnig hwn ond, cyn belled ag y gellir cadarnhau, ni chafodd unrhyw un ei anfon at drigolion Heol Kimberley na'r strydoedd cyfagos."*

*"Cymerwyd yn ganiataol bod y rhai nad ydynt wedi ateb yn hapus gyda'r cynllun arfaethedig gyda'r lôn feicio, nid wyf yn ei weld fel hyn gan fod llawer o'r eiddo yn Heol Ninian yn dai amlfeddiannaeth y caniateir iddynt fod o'r fath hwn gan gynlluniau Cyngor Caerdydd. Mae llythyrau yn yr eiddo hyn yn tueddu i eistedd o gwmpas ar lawr neu silff yn hytrach na bod rhywun yn edrych arnynt ac nid yw'r preswylwyr bob amser yn ymwybodol y gallant ddelio â nhw."*

*"O'r 900 o lythyrau a anfonwyd ar gyfer yr ymgynghoriad ym mis Mawrth dim ond 257 o ymatebion a gafwyd. Yna dywedodd yr adroddiad "Byddai hyn hefyd yn awgrymu nad oedd gan tua 72% o bobl (na ymatebodd) unrhyw wrthwynebiadau na barn ar y cynnig" Oherwydd y ffordd y lluniwyd yr ymgynghoriad, ni welodd llawer o bobl yr effeithiwyd arnynt*

*y goblygiadau llawn. Nawr eu bod yn gwybod, maent yn anhapus iawn yn ei gylch ac yn teimlo eu bod wedi cael eu twyllo."*

***"Mae llawer o fanylion i'w penderfynu o hyd ac ni ddylid caniatáu i'r dyluniad fynd yn ei flaen hyd nes y bydd yr effaith ehangach ar symudiadau traffig wedi'i asesu a hyd nes y bydd pawb a allai gael eu heffeithio, gan gynnwys preswylwyr Heol Kimberley, wedi cael eu hysbysu'n briodol a bod y Cyngor wedi ymgynghori â nhw ar yr effeithiau a aseswyd."***

*"Ar ôl edrych yn ofalus ar y cynlluniau ar gyfer yr ardal rwy'n falch iawn gyda'r rhan fwyaf o'r cynigion, yn enwedig uwchraddio'r llwybr troed a chyflwyno'r llwybr beicio ar hyd Cae Rec y Rhath ac yn enwedig gosod croesfannau uwch yn lle'r mannau cul ar Heol Tŷ Draw."*

*"Nid yw'r arolwg ar-lein mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchu defnyddwyr ceir ac mae'n canolbwyntio ar feicwyr a cherddwyr, nid yw'r cyfle prin ar gael i bawb feicio neu gerdded."*

***Sylwadau am deithio llesol, aer glân ac ymddygiad beicwyr…***

***Crynodeb o'r sylwadau***

*"Mae'n ymddangos mai cyfiawnhad y Cyngor dros y datblygiad hwn yw: Ei fod yn hybu beicio a cherdded ac felly'n cyfrannu at aer glanach. Nid yw hyn wedi bod yn wir gyda'r lôn feicio yn Heol Wellfield gan fod ail-lwybro traffig yn golygu bod ceir yn teithio ymhellach ac mae'r amseroedd aros cynyddol wrth y goleuadau traffig ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian yn golygu bod ceir yn aros yn eu hunfan yn llosgi tanwydd am lawer hirach nag o'r blaen. Mae hyn yn niweidiol i aer glân. Bydd y newidiadau arfaethedig pellach hyn yn gwneud hynny'n waeth."*

*"Mae'n fwy diogel i feicwyr a cherddwyr. Hyd eithaf fy ngwybodaeth ni fu unrhyw ddamweiniau rhwng cyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian a Heol y Gwernydd. Nid oes gwell na dim o ran diogelwch! Felly pam fyddai'r Cyngor yn gwario symiau enfawr o arian i fynd i'r afael â phroblem nad yw'n broblem. At hynny, gan fod beicwyr am gael yr opsiwn o ddefnyddio'r ffordd hefyd, faint fyddai'r llwybr yn cyfrannu at ddiogelwch beth bynnag?"*

*"Mae cynlluniau o'r fath yn cynyddu cerdded a beicio. Beth yw tystiolaeth y Cyngor ar gyfer yr honiad hwnnw? Nid yw ymatebion i holiadur sy'n awgrymu bod pobl sy'n ateb y byddent yn cerdded neu'n beicio mwy o reidrwydd yn trosi'n newidiadau ymddygiad gwirioneddol. Ble mae'r dystiolaeth bendant?"*

*"Mae'n ymddangos i mi nad yw'r lonydd beicio a adeiladwyd ar Deras Cathays a Heol Wellfield yn cael eu defnyddio llawer iawn gan feicwyr, y mae llawer ohonynt yn parhau i ddefnyddio'r ffordd, ac maent wedi achosi llawer o aflonyddwch i fusnesau, trigolion a modurwyr tra'n cynyddu tagfeydd cerbydau modur ac felly'n cynyddu allyriadau cerbydau. Cyn creu mwy fyth o anhrefn, rwy'n awgrymu y dylai'r Cyngor gynnal arolwg o'r rhai sy'n byw o gwmpas, yn gweithio ac yn defnyddio Teras Cathays a Heol Wellfield i asesu eu lefelau o fodlonrwydd ar y cynlluniau gorffenedig."*

*"Efallai bod ffyrdd gwell o gyfrannu at aer glân. Yn lle gwario symiau enfawr ar y cynllun arfaethedig hwn, beth am osod pwyntiau gwefru ceir trydan ar hyd Heol Ninian a Heol y Gwernydd?"*

*“Fel beiciwr a cherddwr yn ystod y dydd rwy’n croesawu cyflwyno llwybrau beicio. Fodd bynnag, mae'r llwybrau mor ddigyswllt rhwng ardaloedd. Mae'r cynigion newydd yn rhedeg ar hyd Cae Rec y Rhath ac yna'n stopio, ni fyddant yn gwneud dim i dawelu traffig yn yr ardal nac yn annog gyrwyr i gyfnewid eu ceir am feiciau. Rwy'n gwerthfawrogi y bydd gosod y llwybrau ar Gae Rec y Rhath yn helpu i wella draenio, ond nid wyf yn gweld unrhyw fudd arall gan nad yw'r llwybrau'n cysylltu'n dda â llwybrau eraill. “*

*“Hefyd nodwyd y llynedd y perygl o fynd i'r afael â hyn fesul tipyn. Dylai absenoldeb unrhyw wybodaeth am sut y bydd y “drafffordd” yn parhau i gylchfan “Juboraj” (ger Heol y Dderwen Deg) mewn modd sy'n ddiogel i feicwyr fod yn flaenoriaeth neu fe allai'r Cyngor fod wedi cyfyngu ar ei opsiynau – ac efallai na fyddant yn gallu dilyn yr opsiwn gorau –drwy fod wedi cyfeirio beiciau eisoes ar hyd Heol Ninian.”*

***“Ar y cyfan mae anoddefiad gan yrwyr Caerdydd tuag at feicwyr sydd angen mynd i’r afael ag ef. Rwyf wedi cael digwyddiadau di-ri gerllaw Heol Pen-y-Wain - o gael pobl yn gweiddi arnaf, yn refio arnaf, a damweiniau a fu bron iddynt ddigwydd ar y gylchfan fach, ac rwy’n gweld ceir yn mynd trwy oleuadau coch ar draws y ddinas. Rwy’n gweld raswyr ifanc yn goryrru drwy’r strydoedd a gallaf weld mai ychydig iawn o gymhelliant sydd i fynd ar gefn beic.”***

*“Rydym yn byw yn Kimberley Road ac ar hyn o bryd mae ein plant yn beicio i Ysgol Uwchradd Caerdydd. Mae hyn yn fy nychryn i! Nid yw'r llwybr presennol yn teimlo'n ddiogel. Rwy’n sylweddoli y bydd y newidiadau i fynd i mewn i Heol Marlborough heb os yn golygu mwy o draffig ar Kimberley Road ond i ni, mae manteision llwybrau beicio diogel yn drech nag unrhyw anfanteision.”*

***Pryderon am y llwybr beicio trwy’r cae chwarae, y coed a’r llwybr …***

***Crynodeb o’r sylwadau cryno***

*“Rwy’n siomedig i weld rhai coed treftadaeth hyfryd yn cael eu tynnu ymaith fel rhan o gynllun y maes parcio. Bydd y coed hyn yn cymryd degawdau os nad canrif i aildyfu ac maent yn rhan bwysig o gymeriad a harddwch yr ardal.”*

*“Mae gennym bryderon ynghylch yr effaith ar draffig yn ein hardal gadwraeth ein hunain pe bai’r cynllun yn mynd yn ei flaen, yn ogystal ag effaith weledol y cynllun ar ardal gadwraeth gyfagos”.*

*“Rwyf hefyd yn bryderus am ddiogelwch y coed aeddfed sydd ar hyd Cae Rec y Rhath – sut fydd y cyngor yn gwarantu nad ydynt yn cael eu difrodi yn sgil y gwaith i’r llwybr beicio arfaethedig a lledu’r llwybr troed?”*

*“Mae lleoliad y llwybr beicio wrth ymyl y maes parcio ar ochr Cae Rec y Rhath o Heol Ninian yn gwahodd damweiniau lle mae anifeiliaid anwes neu blant bach yn dod allan o’r ceir sydd wedi’u parcio yno er mwyn defnyddio’r Cae Rec, sy’n ddigwyddiad cyffredin yn ystod yr haf.”*

*“Yn gyffredinol o blaid y cynigion. Byddai'n well gen i petai'r llwybr beicio yn cael ei gerfio allan o Heol Ninian yn hytrach na'r parc, ond ar wahân i hynny yn cytuno'n llawn. Ar y cyfan dwi'n meddwl byddai sefydlu system unffordd ar gyfer ceir o amgylch Cae Rec y Rhath, Gerddi Pleser y Rhath a Pharc y Rhath gan ddefnyddio’r lle ychwanegol ar gyfer lonydd beiciau yn ychwanegiad ardderchog i’r cynnig hwn, yn ogystal ag ymestyn y lôn feicio bresennol i Heol Albany, sydd ar hyn o bryd yn beryglus iawn i feicio arni.”*

*“Byddai system unffordd ar gyfer y ceir o amgylch y Cae Rec yn galluogi trigolion i gadw mannau parcio tra’n darparu lle ar gyfer lôn feiciau ar wahân ar y ffordd.”*

*“Nid wyf yn gwrthwynebu gwella’r darpariaethau ar gyfer beicio ond teimlaf y gellid cyflawni’r ddarpariaeth drwy wella’r llwybr troed presennol o amgylch y Cae Rec drwy fynd ag ef i mewn tuag at y parc yn hytrach nag allan i’r ffordd.”*

*“Mae pennu bod y llwybr beiciau yn ymestyn ar hyd y Cae Rec hefyd yn codi’r cwestiwn o ddiogelwch ar ôl iddi dywyllu, yn enwedig o safbwynt beicwyr benywaidd sydd ar eu pen eu hunain. Er na fyddai'r llwybr yn bell iawn o Heol Ninian, byddai o dan orchudd coed, sy'n rhwystro'r golau o oleuadau stryd cyfagos. Yn y rownd flaenorol o ymgynghori, dywedodd y cyngor ei fod yn ystyried defnyddio goleuadau lefel isel ar gyfer y rhan hon o'r llwybr. Fodd bynnag, ni chrybwyllir unrhyw oleuadau o unrhyw fath yn y cynigion diwygiedig hyn, sy'n peri pryder mawr inni. Os nad yw menywod a merched yn teimlo’n ddiogel yn beicio ar ôl iddi dywyllu, ni fyddant yn gwneud hynny.”*

*“Rydym yn falch iawn o weld cam nesaf Llwybr Beicio Parc y Rhath yn datblygu o'r diwedd. Yn anffodus, mae ei leoliad ar hyd y Cae Rec yn bygwth tanseilio ei effeithiolrwydd, gan na fydd gan gerddwyr unrhyw ddewis heblaw ei groesi ar droed i gael mynediad i'r caeau chwarae o Heol Ninian. Mae hyn yn siŵr o’u rhoi ar lwybr beicwyr, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf pan fo’r Cae Rec yn hynod o brysur, a bydd y perygl yn arbennig o ddifrifol i gerddwyr anabl a’r rhai ag amhariad ar y golwg”.*

*“Rydym yn annog Cyngor Caerdydd i gynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar y safle, ac i ymgynghori ymhellach â grwpiau hygyrchedd perthnasol (Cŵn Tywys Cymru, Anabledd Cymru, Wheels for All, ac ati.) er mwyn sicrhau nad yw gwelliannau teithio llesol yn dod ar draul yr aelodau sydd fwyaf agored i niwed ein cymuned”.*

*“Rydym yn deall awydd y cyngor i gadw mannau parcio, ond yn teimlo’n gryf bod teithio llesol yn haeddu ei gyfran deg o ofod ar y ffyrdd, nid mannau gwyrdd.”*

*“Ni fu’n bosibl canfod sut mae llwybr beicio dros dro Heol Wellfield yn cyd-fynd ag unrhyw gynllun dinas cyffredinol ar gyfer llwybrau beicio. Ar wefan y Cyngor o dan ‘Parcio, Ffyrdd a Theithio’ / ‘Llwybrau Beicio Dros Dro’ mae cynnig ar gyfer llwybr beicio ‘Llwybr Coch Heol Albany ’ ond dim un ar gyfer Heol Wellfield, sydd hefyd yn un dros dro, yn ôl pob tebyg. Sut mae'r Cyngor yn cyfiawnhau'r newidiadau cymharol fawr a chostus hyn ar sail llwybr beicio dros dro ar Heol Wellfield?”*

*“Gwaetha’r modd, mae rhai beicwyr yn ddefnyddwyr ffyrdd anystyriol iawn ac nid oes angen naid fawr o ddychymyg i’w gweld yn bwrw mewn i ryw blentyn bach anffodus. Os bydd hyn yn arwain at anaf tymor hir, nid yw'n anodd ychwaith dychmygu, heb ystyried dioddefaint dynol, y gallai'r Cyngor ganfod ei hun yn darged achos atebolrwydd cyhoeddus costus. Am y rheswm hwn byddai’n llawer gwell cadw’r mesurau gostegu traffig ar Heol Tŷ Draw a defnyddio un o’r ddau lwybr troed yr ochr honno i’r parc (mae’r nant yn eu gwahanu) ar gyfer y llwybr beicio.”*

*“Mewn perthynas â’r lôn feiciau arfaethedig ar hyd y llwybr ar ochr Heol Ninian i Gae Rec y Rhath, mae wedi gofyn a oes unrhyw wybodaeth am amlder defnydd y llwybr beicio dynodedig gan feicwyr”.*

*"A allech chi roi gwybod pa ddata sydd gan y cyngor ar hyn o bryd ar y defnydd o feiciau yn y lleoliad hwn, a pha ddata modelu sydd gan y cyngor ar yr hyn y mae'n disgwyl y byddai'r defnydd ohono pe bai'r lôn feiciau'n cael ei gosod?"*

***"Rydym yn croesawu'r cynllun i ddarparu llwybr teithio llesol ar wahân ochr yn ochr â Heol Ninian wedi'i gysylltu â'r llwybr dros dro ar Heol Wellfield. Nodwn mai'r cynnig yw lleoli'r llwybr ar laswelltir y parc ei hun, gan leihau'r ardal o fannau gwyrdd. Credwn y byddai'n well lleoli'r llwybr beicio ar y ffordd, gyda'r palmant presennol yn cael ei ail-wynebu. Fodd bynnag, rydym yn deall yr anawsterau o ddod o hyd i lwybr cydlynol ar y ffordd hon a'r angen i osgoi gwrthdaro ag arosfannau bysiau ond rydym yn parhau i fod o'r farn, lle bynnag y bo modd, y dylai seilwaith teithio llesol gymryd lle o ffyrdd yn hytrach na mannau gwyrdd. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n dechnegol bosibl, yna byddem yn cefnogi'r aliniad presennol."***

*"Rydym yn nodi bod y llwybr arfaethedig yn dod i ben yn Heol y Gwernydd, gyda rhan fer o lôn feicio ar y ffordd i'r gogledd o Heol y Gwernydd. Beth yw'r cynllun ar gyfer parhau â'r llwybr? Mae'r Cwestiynau Cyffredin yn awgrymu y gallai'r llwybr hwn gysylltu â Heol Orllewinol y Llyn. Rydym yn awgrymu y dylai hefyd gysylltu drwy Heol Wedal i Lwybr Beicio 1 gan y byddai'r cysylltiad hwn yn darparu mynediad i Ysbyty'r Mynydd Bychan. Yr opsiynau yw llwybr trwy'r gerddi ffurfiol, neu i'r llwybr droi tua'r dwyrain ar hyd Heol y Gwernydd ac yna i Heol Tŷ Draw , neu ein dewis ni fyddai llwybr beicio ar wahân ar hyd rhan ogleddol Heol Ninian i Gylchfan y Dderwen Deg.*
*Gallai'r gylchfan hon gael ei throsi'n ddyluniad "Arddull Iseldiraidd" gyda llwybr beicio o'i chwmpas."*

***Pryderon ynghylch cynllun y maes parcio a pharcio yn gyffredinol…***

***Crynodeb o'r sylwadau cryno***
*"Mae'n edrych fel y byddai mannau'n cael eu colli a does dim digon o fannau i'r anabl."*

*"Rwy'n meddwl y bydd tagfa o geir yn y maes parcio yn aros i ymadael. Credaf y bydd pobl yn parcio yn y man troi pan na fydd lleoedd ar gael, a bydd hyn yn achosi problemau pellach."*

*"Bydd lle cyfyngedig i droi, a bydd ymadael i ymuno â Heol Pen-y-Lan yn achosi problemau yn y maes parcio. Bydd troi i'r dde i'r gyffordd yn anodd iawn a bydd troi i'r chwith yn anodd gyda'r safle bws."*

*"Rydym yn bryderus iawn bod llwybro'r llwybr beicio ar hyd y Cae Rec, yn hytrach nag ar hyd lôn gerbydau Heol Ninian, yn ei orfodi i groesi'r plasa cyhoeddus o flaen y Ganolfan Gymunedol. Mae hyn yn cyflwyno pwynt o wrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr, ac yn gorfodi cerddwyr i groesi dwy lôn o draffig i gyrraedd y Ganolfan Gymunedol, yn hytrach nag un yn unig."*

*"Ar y cyfan, mae'r newidiadau hyn yn ymddangos yn rhesymol ac yn angenrheidiol, er mwyn atal traffig ceir rhag croesi'r llwybr beicio newydd yn gyson, neu'n stopio arno wrth aros i dynnu allan ar Heol Ninian. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r cynlluniau presennol sut yn union y mae'r cyngor yn bwriadu atal gyrwyr rhag defnyddio'r allanfa bresennol. A fydd rhyw fath o system rhwystr yn cael ei gosod?"*

*“Mae’r ffordd o flaen y Cae Rec, sy’n ased gwerthfawr i Gaerdydd a ddefnyddir yn aml – am y rhan fwyaf o’r flwyddyn oni bai ei fod yn hynod o wlyb. Daw llawer o ddefnyddwyr mewn ceir i hamddena yn y parc – ni allaf weld unrhyw awgrymiadau ar gyfer cyfleusterau parcio gwell yn y cynigion. Mae parcio ar hyn o bryd eisoes yn heriol iawn i breswylwyr, ac fel deiliad bathodyn glas rwyf wedi gorfod gadael fy siopa yn fy nghar dros nos yn aml gan nad oeddwn yn gallu mynd yn ddigon agos i fy nghartref i gario fy magiau i mewn i’r tŷ. Os yw'r palmentydd i gael eu lledu – ble mae trigolion i fod i adael eu ceir?”*

*“Heol Tŷ Draw – mae’r ffordd hon yn rhy gul ac yn aml mae ceir wedi’u parcio ar ei hyd.”*

***“Os gwelwch yn dda stopiwch bobl rhag parcio ar Heol Tŷ Draw ar ochr y parc, ar y pen sydd agosaf i Allt Pen-y-lan. Mae hyn yn cynyddu’n gyson ac yn anghyfleus a pheryglus gyferbyn â Pen-y-lan Place.”***

*“Os ydym yn cael y lôn feicio ar ben uchaf Heol Ninian, a ydyn ni'n colli unrhyw fannau parcio, sydd eisoes yn agos at fod yn annigonol?”*

*“Rydym hefyd yn nodi o dan ‘Cwestiynau Cyffredin’ y bydd y cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer ‘y llwybr ehangach’ yn effeithio ar barcio ar y stryd. Mae’n dweud bod y Cyngor wedi bod yn gwneud newidiadau i barcio ar sail fesul parth, gan gyflwyno mwy o fannau parcio i breswylwyr a pharcio aros cyfyngedig, gyda rhai parthau’n cael eu darparu fel rhan o’r llwybrau beicio sy’n cael eu datblygu, ac yn ychwanegu y bydd cynlluniau’n cael eu darparu yn y dyfodol i’w ‘hystyried’. Rhaid i’r Cyngor ymgynghori’n briodol â thrigolion ar unrhyw gynlluniau.”*

*“Ynghylch y parcio ar Balaclava Road. Yn aml, ni allwn barcio ein ceir oherwydd diffyg mannau parcio i breswylwyr (yr wyf wedi dadlau sawl gwaith sy’n ymddangos fel pe baent yn cael eu hanwybyddu a’u hatal.) Yn aml mae'n rhaid i drigolion y ffordd rwystro'r ffordd er mwyn iddynt allu dadlwytho'r cerbyd, sy'n ymddangos fel pe bai'n cynhyrfu'r rhai sy'n ceisio osgoi'r goleuadau.*
*Mae wedi achosi llawer o densiwn ymhlith trigolion y ffordd a bydd eich cynnig yn ychwanegu at hyn.*

***Sylwadau am Pen-y-Wain Place a Heol Ninian …***

***Crynodeb o’r sylwadau cryno***
*”Mae ein grŵp wedi bod yn deisebu am welliannau i’r groesfan hon ers 2020, gan ei bod yn groesfan boblogaidd i deuluoedd a phlant sy’n mynychu Ysgol Gynradd Parc y Rhath, Meithrinfa Ninian, a’r Cae Rec. Rydym yn falch iawn o weld y gwelliannau hyn yn cael eu cyflwyno o’r diwedd.”*

*“Rydym yn falch iawn o weld y cyngor yn archwilio ffyrdd o gysylltu'r llwybr beicio newydd ag Ysgol Gynradd Parc y Rhath. Mae’r ysgol wedi bod yn gweithio’n galed i annog ei disgyblion i ddefnyddio dulliau teithio llesol, ac mae’n hanfodol bod gan deuluoedd lleol seilwaith diogel a chyfleus i ddibynnu arno.*

*“Mae llwybrau a rennir yn aml yn dod â beicwyr a cherddwyr i wrthdaro, ac yn achosi perygl arbennig i’r rhai ag anableddau, a all ddewis osgoi llwybrau o’r fath yn gyfan gwbl. Byddai’r llwybr a rennir arfaethedig ar Pen-y-Wain Place yn brysur iawn yn ystod y daith ysgol ddwywaith y dydd, a byddai mwyafrif y defnyddwyr yn blant ifanc nad ydynt (gan siarad o*

*brofiad) mor ofalus nac mor ystyriol o eraill ag y byddant yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hyn yn cyflwyno'r potensial ar gyfer llawer o wrthdaro rhwng y rhai sy'n cerdded a'r rhai sy'n defnyddio olwynion. Byddem yn annog Cyngor Caerdydd i archwilio opsiynau pellach ar gyfer Pen-y-Wain Place, gan gynnwys llwybr beicio byr ar wahân, er mwyn cadw cerddwyr a thraffig beicio ar wahân."*

*"Mae croeso mawr i'r estyniadau newydd arfaethedig i'r gyffordd ar hyd Heol Ninian hefyd, gan y byddant yn helpu i arafu traffig sy'n troi i mewn ac allan o strydoedd ymyl, tra'n gwella gwelededd i gerddwyr".*

*"Rwy'n falch bod gennych ddyheadau i wneud beicio'n fwy hygyrch. Yn bersonol teimlaf yn gryf y dylid trosi Heol Ninian i gerddwyr yn unig– mae hyn yn bennaf oherwydd y lefelau gwenwynig o lygredd aer o'r ceir ar Heol Ninian a'r niwed mae hyn yn ei achosi i iechyd pobl sy'n byw yn lleol, mae'r ceir hefyd yn achosi llygredd sŵn sy'n tarfu ar yr heddwch y mae pobl yn ei geisio wrth ddod i'r parc, maent hefyd yn beryglon i gerddwyr a beicwyr, ochr yn ochr â hyn mae'r tarfu y maent yn ei achosi i gydlyniant cymunedol gyda thrigolion eraill sy'n byw oddi ar y tir hamdden yn debygol o fod yn sylweddol. Fel preswylydd mae llygredd aer a sŵn o Heol Ninian yn gwneud i ni ystyried symud i rywle arall. Mae'n siomedig na fydd cynlluniau i wella ein hardal leol yn gwneud llawer i fynd i'r afael â'r prif faterion y mae trigolion yn eu hwynebu. A fyddech cystal â gwella eich cynlluniau fel bod Heol Ninian at ddefnydd cerddwyr yn unig, neu o leiaf gymryd cam i'r cyfeiriad hwn drwy ei gwneud yn stryd un ffordd ac adeiladu'r llwybr beicio newydd ar yr hen ffordd yn hytrach na thrwy'r parc a lleihau mynediad i fannau gwyrdd?"*

***Sylwadau am gael gwared â mannau cul â blaenoriaeth ar Heol Tŷ Draw…***

***Crynodeb o'r sylwadau***
*"Mae traffig yn teithio'n gyflym i lawr y ffordd hon yn gyson, a bydd cael gwared ar y mannau cul yn gwneud hyn yn waeth."*

*"Mae hwn yn ychwanegiad i'w groesawu'n fawr i'r cynlluniau, gan fod Heol Tŷ Draw ar hyn o bryd yn dioddef o ddiffyg croesfannau penodol. Mae croesi'n fwy peryglus oherwydd pa mor aml y mae gyrwyr yn goryrru, felly dylai'r croesfannau â bwrdd arafu helpu i leihau cyflymder yn gyffredinol, a helpu i gadw cerddwyr a beicwyr yn fwy diogel."*

*"Mae'r mesurau gostegu traffig presennol (mannau cul) ar Heol Tŷ Draw wedi methu ag arafu cyflymder traffig – gan arwain, mewn gwirionedd, at oryrru drwy'r mannau culhau a digwyddiadau 'cythraul gyrru' o ganlyniad. Byddai'r newidiadau arfaethedig (croesfannau â bwrdd arafu) yr un mor aneffeithiol yn y byd go iawn ac yn cynnig diogelwch ffug i gerddwyr. Os yw Cyngor Caerdydd yn cynnig gorfodi terfyn cyflymder 20mya ar draws Caerdydd, yna beth am ddileu'r holl fesurau / cynlluniau gostegu ofer ac arbed arian".*

*"Mae hi eisoes yn ffordd dynn gyda cheir yn cael eu parcio ar un ochr i'r ffordd, ac mae traffig dwy ffordd eisoes yn achosi problemau ac anawsterau wrth groesi'r ffordd – i gerddwyr a defnyddwyr ceir fel ei gilydd."*

*"Rwy'n meddwl y byddai'r mannau croesi heb eu rheoli ar fyrddau arafu ar Heol Tŷ Draw yn gweithio orau fel croesfannau sebra â bwrdd arafu, o leiaf ar gyfer dau neu dri ohonyn nhw."*

*"Bydd pedwar yn gorwneud pethau. Mae un yn sicr yn ddigon."*

*“Bydd Heol Tŷ Draw yn parhau i fod yn beryglus fel cerddwr sy'n ceisio croesi gan nad oes croesfan ffurfiol i gerddwyr ac ar y pen sydd agosaf i’r llyn mae gwelededd yn wael felly mae gyrwyr sy'n goryrru yn fy mygwth wrth groesi gyda phlant / bygi. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gadeiriau olwyn. Mae problemau gyda’r palmant ar ochr o Heol Tŷ Draw sydd â thai hefyd yn golygu na all unrhyw gadair olwyn deithio ar ochr honno gan fod gwreiddiau wedi creu rhwystrau.”*

*“Yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl ddall groesi'r ffordd. Hefyd, mae llawer o blant yn dibynnu ar y mannau cul ar y ffordd i groesi’n ddiogel.”*

***Sylwadau am Heol Tŷ Draw fel llwybr beicio***

***Crynodeb o’r sylwadau***

*“Fy nghynnig yma yw os na allwch ddefnyddio Heol Tŷ Draw yna bod y lôn feicio yn cael ei dargyfeirio o’r un ar y cynllun i fynd o amgylch y llwybr pellaf ar y tir hamdden sydd cae rec sydd wrth ymyl y nant, sy’n cael ei ddefnyddio llawer llai gan gerddwyr. Mae'r ddau balmant ar ochr Heol Ninian i'r Cae Rec yn cael eu defnyddio'n gyson ac mae'n ymddangos bod yn well gan deuluoedd ifanc ac ysgolion ddefnyddio'r palmant uchaf ar hyd Heol Ninian sydd wrth ymyl y glaswellt. Mae hyn ar gyfer yr agwedd diogelwch.”*

*“Ynghylch y posibilrwydd o lôn feicio ar Heol Tŷ Draw, mae dau balmant ar wahân ar ochr y Cae Rec, ac nid oes cynifer o bobl yn defnyddio’r naill balmant na’r llall o’u cymharu â’r ddau balmant ar hyd y Cae Rec ar ochr y ffordd ar Heol Ninian. Mae eich ymgynghoriad yn dweud, ar ôl i asesiad gael ei ystyried, o ran y gofod priffordd angenrheidiol sydd ei angen ar gyfer llwybr beicio, byddai’r lle sydd ei angen yn annigonol heb golli mannau parcio a choed.”*

*“Dylid colli mannau parcio a achosir gan ddefnyddio’r llwybr isaf presennol. Ochr Cae Rec Heol Tŷ Draw gan nad oes mannau parcio ar hyd y llwybr hwnnw i’w colli, mae wedi’i osod i lawr o’r ffordd fawr ac ar hyd y llwybr mae llwyni a choed sy’n bargodi ac efallai y bydd angen eu tocio.”*

*“Nodaf eich bod wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw darpariaeth bresennol Heol Tŷ Draw fel lôn feicio yn ddigonol ac rwy’n cytuno â hynny ond rydych hefyd yn sôn bod y toriad trwodd yn llenwi â malurion, a gaf nodi yma, yn sicr, mai cyfrifoldeb y cyngor ydyw i gadw ffyrdd yn glir.”*

*“Rwy’n sylwi hefyd eich bod wedi sôn am y gerddi pleser â gatiau, hoffwn nodi bod y gatiau hyn bellach ar agor yn barhaol ac nad ydynt wedi bod ar gau ers dechrau’r pandemig.”*

*Sylwadau am drefniant y gyffordd â signalau*

***Crynodeb o’r sylwadau***

*“Mae’r gyffordd hon wedi bod yn lletchwith ers tro, ac weithiau mae hyd yn oed yn beryglus i’w llywio wrth gerdded neu yrru. Rydym felly’n cefnogi’r cynigion hyn ar gyfer palmentydd ehangach a chroesfannau mwy uniongyrchol, a fydd o fudd enfawr.”*

*“Roedd gen i ddiddordeb mewn darllen y cynnig am newidiadau i Gae Rec y Rhath. Rwy’n ddefnyddiwr cadair olwyn yn byw yn Kimberley Road ac yn mwynhau teithiau i Barc y Rhath.*

*Rwy'n falch bod newidiadau'n cael eu cynnig a gobeithio y byddant yn gwneud fy nhaith yn haws."*

*"Mae'r traffig ar y ffordd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd mae'n ymddangos bod amseriad y goleuadau traffig ar gyffordd Heol Ninian a Heol Wellfield wedi newid."*

*"Mae amseriad y signalau ar gyffordd Heol Marlborough / Heol Ninian / Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan ar hyn o bryd (heddiw) yn rhoi llawer o flaenoriaeth i draffig ffordd yn hytrach na cherddwyr. Ar hyn o bryd mae hyn yn golygu bod cerddwyr yn gorfod aros am gyfnodau hir cyn gallu croesi'r ffordd, gan olygu bod pobl yn croesi pan nad yw'n ddiogel iddynt wneud hynny. O dan y trefniadau newydd, dylid rhoi llawer iawn o flaenoriaeth i gerddwyr a defnyddwyr beiciau wrth bennu cyfnodau'r signalau traffig. Nid oeddwn yn sicr o'r ddogfen gynnig o ran a fyddai hyn yn wir."*

*"Pe bai'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, byddai'n fuddiol rhaglennu gwaith gwella cyffyrdd ar gyfer gwyliau'r haf. Er bod croeso mawr i waith diweddar ar wahanol gyffyrdd yn yr ardal, gwnaed gwaith yn ystod y tymor pan oedd y traffig yn drymach. Roedd yr aflonyddwch i'r rhwydwaith ffyrdd lleol a achoswyd gan y gwaith gwella cyffordd yn nodedig / problemus. Heb ystyried y pwyntiau hyn: Mae'r cynigion yn edrych fel petaent o fudd i'r ardal leol; mae'n gadarnhaol gweld croesfan "lletraws" y gyffordd yn cael ei ffurfioli, rhywbeth y mae llawer o bobl eisoes yn ei wneud (weithiau mewn ffordd anniogel); Mae'n gadarnhaol gweld y rhwydwaith beicio o amgylch y ddinas yn datblygu ymhellach eto; ac mae adlinio llwybr yr ochr ogleddol i osgoi effeithio ar y coed wrth ledu'r llwybr yn gam synhwyrol."*

*"Efallai y bydd y gwelliannau hyn yn hyfryd i feicwyr preswyl y Rhath, ond beth amdanom ni ym Mhen-y-lan yn dod o Allt Pen-y-lan? Does dim byd i ni ac nid oes unrhyw ffordd i mi feicio i lawr yn ddiogel ac ymuno â'r llwybr beicio gyda fy mhlant."*

*"Rydym yn nodi'r cysylltiad rhwng y llwybr hwn a'r llwybr presennol ar Heol Wellfield. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod darpariaeth ar gyfer beicwyr sy'n dod i lawr Heol Pen-y-lan i ymuno â llwybr Parc y Rhath. Yn yr un modd, mae gan feicwyr sy'n dod tua'r gogledd ar Heol Marlborough yr un angen. Rydym yn awgrymu bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddyluniad y gyffordd hon er mwyn darparu'n briodol ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Efallai y byddai "cylchfan arddull Iseldiraidd" yn addas neu, os nad oes digon o le i hynny, a ellid darparu dilyniant "Pawb ar Goch" i'r gyffordd, fel y gallai cerddwyr a beicwyr groesi i bob cyfeiriad a ddymunid ganddynt."*

***Sylwadau ynghylch gwahardd symudiadau troi ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough / Heol Ninian …***

***Crynodeb o'r sylwadau***
*"Rwy'n gwrthwynebu'n fawr iawn cyfyngu ar droi i'r dde wrth y gyffordd; Rwy'n meddwl y bydd hyn yn cynyddu tagfeydd ar ffyrdd eraill yn enwedig Heol Wellfield wrth i bobl geisio dod o hyd i lwybrau amgen."*

*"Byddai'r gwaharddiad arfaethedig ar droi i'r dde o Heol Wellfield i Heol Marlborough yn gorfodi pob cerbyd sydd am droi i'r dde i ddefnyddio Heol Pen-y-Lan. Byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau a thagfeydd ar gyffordd Banc Barclays"*

*“Fel un o drigolion Bangor Street, bydd yn drafferthus peidio â gallu troi i’r dde allan o Heol Wellfield i Heol Marlborough gan mai dyma ein prif lwybr i ganol y ddinas, y Bae, y Barri, Penarth, ac ati”*

*“Rwy'n byw yn Balaclava Road sydd bellach yn llwybr trwodd ac yn ardal broblemus o ran parcio. Ni allaf barcio ar fy stryd yn rheolaidd ac fe ddylai ddod yn ardal parcio i drigolion yn fy marn i. Ers gwneud Heol Wellfield yn system un ffordd, mae llawer o bobl yn parcio yma ac yn ei ddefnyddio fel llwybr trwodd. Bydd y newidiadau arfaethedig i’r troad o Heol Wellfield a Heol Marlborough yn golygu bod hyd yn oed mwy o bobl yn defnyddio’r stryd fel llwybr trwodd.”*

*“Mae Balaclava Road yn ffordd gul ac mae trafferthion bob amser gyda dau gar yn mynd heibio’i gilydd.”*

*“Os ewch ymlaen i newid y ffyrdd fel nad oes modd troi i’r dde i Heol Marlborough o Heol Wellfield byddwch yn gorfodi traffig i mewn i Sandringham Road.”*

*“Byddwch yn rhwystro Heol Pen-y-lan gyda thraffig sy’n ceisio troi i mewn i Sandringham Road heb unrhyw hawl tramwy.”*

*“Mae hyn yn golygu bod mwy o draffig yn mynd heibio i fynedfa'r feithrinfa ar Blenheim Road. Nid yw llywio â lloeren yn mynd i anfon pobl yn ôl ar eu hunain tuag at Heol Albany a Heol Wellfield. Lle mae traffig yn aml yn aros yn ei unfan. Bydd yn effeithio ar yr ansawdd aer yn yr ardal gyda llawer iawn o draffig llonydd.”*

*“Mae’r mynediad i Heol Cyncoed o’r ardal siopa yn mynd yn llawer anoddach. Mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig iawn i bentref Cyncoed o'r ardal. Bydd pobl anabl dan anfantais bellach gyda’r cyfyngiadau hyn.”*

*“Bu cynnydd sylweddol yn y traffig ar y ffordd yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd mae’n ymddangos bod amseriad y goleuadau traffig ar gyffordd Heol Ninian a Heol Wellfield wedi newid.”*

*“Mae’r ddogfen yn nodi bod gwaith modelu yn dangos y bydd hyn yn cael effaith ddibwys a bod y buddion yn gorbwyso’r effeithiau negyddol. Fel un o drigolion Kimberly Road, byddai’n effeithio’n negyddol arnaf ac felly bydd angen tystiolaeth bellach i gefnogi hyn. Mae angen adolygu'r manylion yn llawn o ran faint o gerbydau ychwanegol fydd yn defnyddio Kimberley Road, Westville Road a Sandringham Road ac ar ba adegau o'r dydd er mwyn deall y risgiau i'n hiechyd yn llawn. Rhaid ystyried y risgiau hyn o ran cerbydau’n goryrru a mwy o gysylltiad â nitrogen deuocsid a PM10, y gall y ddau ohonynt leihau disgwyliad oes oherwydd salwch anadlol.”*

*“Os yw’r cynnig hwn yn cael effaith mor fach, yna mae’n debyg bod y buddion hefyd yn ddibwys. Beth felly yw pwynt y newid? Nid oes esboniad o hyn .”*

*“Mae Sandringham Road yn ffordd dau gyfeiriad. Mae'r mynedfeydd i'r ffordd yn Heol Pen-y-lan a Blenheim Road yn gul gyda cherbydau wedi'u parcio ar ddwy ochr y ffordd. Mae hyn yn golygu nad oes lle i fwy nag un rhes o gerbydau arni. Bydd cynnydd yn y traffig yn achosi problemau ychwanegol ar y ffordd hon i gerbydau sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad. Mae hyn yn debygol o achosi cerbydau sy'n ceisio troi i'r dde i Sandringham Road ffurfio rhes hyd at Heol Pen-y-lan, a fydd yn ychwanegu ymhellach at yr anawsterau ar y rhan hon o'r ffordd*

*sydd eisoes yn llawn tagfeydd. Yn yr un modd, bydd rhesi o gerbydau wrth iddynt geisio ymuno â Sandringham Road ar gyffordd Blenheim Road, gan gynyddu problemau traffig o amgylch mynedfa ysgol gynradd."*

*"O brofiad lleol mae troi i'r dde i Heol Pen-y-lan o Sandringham Road eisoes yn llawer anoddach na throi i'r dde o Heol Marlborough i Heol Pen-y-lan. Mae'r gweledEDD yn llawer llai oherwydd bod ceir wedi parcio ar y naill ochr a'r llall a byddai cynnydd sylweddol mewn traffig yn siŵr o arwain at fwy o ddamweiniau."*

*"Mae'r ddogfen yn dweud bod y newidiadau arfaethedig yn cynnwys diweddaru cyfnodau'r signalau a gwahardd 'symudiadau troi penodol' a fydd yn 'helpu gweithrediad y gyffordd ac yn lleihau tagfeydd'. Ni roddir unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn ac ni chyfeirir at effeithiau ehangach y newidiadau."*

*"Cyn i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gyffordd gael eu symud ymlaen ymhellach, rhaid i'r Cyngor gynnal asesiad o'r effeithiau ar yr ardal ehangach, gan gynnwys Kimberley Road, a gwneud trigolion yn gwbl ymwybodol o'r rhain fel rhan o ymgynghoriad llawn a phriodol."*

*"Mae cyflwyniad diweddar terfyn cyflymder 20mya ar gyfer Kimberley Road wedi cael ei anwybyddu i raddau helaeth gan y traffig hwn."*

*"Nid wyf yn cynnig gohirio neu leihau'r gwelliannau hyn – i'r gwrthwyneb – teimlaf mai'r peth cyfrifol fyddai i'r Cyngor ystyried yr effeithiau canlyniadol tebygol ar gyfer Kimberley Road ac ymestyn y gwelliannau hyn i gynnwys mesurau gostegu traffig yma hefyd."*

*"A yw'r cyngor wedi cynnal unrhyw astudiaethau o gyflymder a swm y traffig ar ein ffordd ni (Kimberley Road)?*

*"Mae'r mynedfeydd i Ysgol Gynradd Marlborough ar Blenheim Road a Agincourt Road. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Marlborough yn mynd i'r mynedfeydd hyn drwy groesi Sandringham Road neu drwy wrth i'w rhieni eu gyrru yno a cheisio parcio ar Sandringham Road i'w gollwng."*

***Pryderon am gau Heol y Gwernydd***

***Crynodeb o'r sylwadau***

*"Nid yw llawer o bobl yr wyf wedi siarad â nhw yn yr ardal yn ymwybodol bod eich cynlluniau'n cynnwys cau Heol y Gwernydd. Nid yw'r diagramau sy'n cael eu harddangos ar byst lampau ac ati yn yr ardal yn sôn yn benodol y bydd y ffordd yn cael ei chau, ac nid yw'n glir o gwbl. Rwyf o'r farn na fu ymgynghori priodol. Mae cau Heol y Gwernydd yn newid mawr a fydd yn cael effaith sylweddol ar yr ardal. Mae angen ymgynghori'n ehangach fel bod y cyhoedd yn cael gwybod am y cynlluniau, ni ddylai gael ei guddio yn y manylion fel y mae ar hyn o bryd."*

*"Ar y cyfan, roeddwn i ac rydw i o blaid y cynllun cyfan heblaw am gau Heol y Gwernydd, felly pan ofynnwyd y cwestiwn a ydw i o blaid y cynllun yn gyffredinol, roeddwn i'n siŵr o ateb ydw. Nid oedd yn gofyn am adrannau unigol e.e., Heol y Gwernydd neu'n darparu adran sylwadau."*

*"Nid oedd y cynlluniau / ymgynghoriad gwreiddiol yn amlygu cau Heol y Gwernydd yn y testun, ond eto roedd wedi ei dynnu'n slei ar y map. A allwch gadarnhau mai camgymeriad gwirioneddol oedd hwn?"*

*"Os edrychwch chi ar y map a gynhyrchwyd mae'n rhaid i chi ei astudio a manylder microsgopig i ganfod y cau, mae wedi'i ddynodi gan linell ddu ar y map."*

